1.

Yr effaith ar y plentyn/plant

> *"Roedd fy merch yma ar y pryd, ac roedd y gnoc, pan ddaeth yr heddlu i gymryd y dyfeisiau ac ati, yn ddychrynllyd. Cafodd hynny effaith fawr iawn arni. Roedd hi'n llefain, roedd hi'n gwneud sŵn fel anifail wedi'i glwyfo, roedd hi'n chwydu. Dychrynllyd."* (Armitage et al, 2023)

Mae'r bennod hon yn ystyried sut y gallai plant gael eu heffeithio gan y darganfyddiad y gallai un o'u rhieni fod wedi cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol.

Y model profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

Yn ystod y degawd diwethaf, mae ymarfer gwaith cymdeithasol gyda phlant wedi mynd yn llawer mwy seiliedig ar drawma. Disgrifiwyd effeithiau uniongyrchol a hirdymor trawma plentyndod cynnar mewn damcaniaeth yn seiliedig ar y syniad o 'Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod' neu 'ACEs' (Felitti et al, 1998).

Mae'r 'model ACE' yn awgrymu y gall y digwyddiadau bywyd niweidiol sy'n cael eu nodi a'u cofnodi fwyaf, gyda'i gilydd, arwain at leihad sylweddol mewn cyfleoedd iechyd a bywyd hirdymor. Rhaid i ymarfer gwaith cymdeithasol gyda theuluoedd a phlant geisio atal profiadau niweidiol rhag bod yn rhan o fywyd plentyn, neu o leiaf ymyrryd i leihau effaith trawma a brofwyd yn barod.

Mae 10 profiad yn ystod plentyndod sy'n cael eu hystyried gan y model ACE: *cam-drin rhywiol*, *rhieni'n ysgaru neu'n gwahanu*, *cam-drin emosiynol*, *esgeuluso emosiynol, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau yn y cartref, salwch meddwl yn y cartref, carcharu rhiant, cam-drin corfforol, esgeuluso corfforol*, ac *ymddygiad treisgar at fam*. Nid yw'r profiadau hyn wedi'u pwysoli na'u gosod mewn unrhyw drefn, a gallai rhai fod yn brofiadau mwy cyffredin na'i gilydd.

Mae astudiaethau hydredol yn awgrymu bod nifer uwch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cynyddu'r effaith negyddol ar weithrediad iach oedolion a disgwyliad oes. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw'r model hwn yn ystyried y ffactorau amddiffynnol ym mywyd plentyn a allai helpu i liniaru'r effeithiau negyddol hyn. Nid yw dim o'r effeithiau hyn wedi eu 'tynghedu' i ddigwydd, a gall plant (a'u teuluoedd) wella ar ôl trawma, gan gynnwys cam-drin rhywiol, ac mae hynny yn digwydd.

Gallai saith o'r 10 profiad niweidiol yn ystod plentyndod fod yn ganlyniad tebygol sefyllfa lle mae rhiant yn cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, felly mae angen i chi fod yn ymwybodol o hyn a gallu ymateb. Efallai y bydd rhai o'r profiadau hyn yn digwydd cyn i unigolyn gael ei ddarganfod a'i arestio, a bydd eraill yn cael eu hysgogi gan y darganfyddiad.

Wrth weithio gyda theuluoedd lle mae rhiant wedi cyflawni unrhyw drosedd rywiol, gan gynnwys mewn troseddau ar-lein, rhaid ystyried ac asesu'r posibilrwydd y gallai ei blentyn/blant ef/hi ei hun fod wedi cael eu ***cam-drin yn rhywiol*** (gweler Pennod 5). Sylwer hefyd, os yw camdriniaeth o'r fath wedi digwydd, mae'n bosibl bod rhywun wedi tynnu lluniau o'r digwyddiad neu ei ffilmio; mae cyfran sylweddol o'r delweddau cam-drin plant yn rhywiol yn cael eu cynhyrchu yng nghartref y teulu.

Gallai'r plentyn/plant hefyd brofi ***esgeuluso emosiynol*** cyn i'r awdurdod ymyrryd, hynny yw bod y rhiant sydd wedi troseddu wedi bod â'i feddwl ar rywbeth arall, ac oherwydd hynny heb fod ar gael i'r plentyn/plant. Mae ***cam-drin emosiynol*** yn bosibl hefyd, oherwydd gallai edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol fod yn arwydd bod gan y rhiant agweddau gelyniaethus neu ddiffyg empathi â phlant yn gyffredinol, neu dueddiad tuag at lywio a rheoli emosiynau fel ffordd o gadw cyfrinachau. Mae rhai oedolion sy'n cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn cyfaddef, ar ôl cael eu darganfod, eu bod yn gaeth i bethau eraill, gan gynnwys ***camddefnyddio alcohol a chyffuriau***. Gallai edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol hefyd fod yn gysylltiedig â phyliau o iselder, ac yn ymdrech i ddianc rhag hynny.

Ar ôl darganfyddiad ac arestiad, mae'n debygol y bydd ***rhieni'n gwahanu*** dros dro neu yn barhaol, ac mae ***carcharu rhiant*** yn bosibilrwydd. Gallai'r plentyn/plant gael eu cam-drin yn eiriol, neu eu gwrthod yn yr ysgol ac yn y gymuned o ganlyniad i hyn, ac efallai y byddant yn gweld colli'r rhiant sydd wedi troseddu ac yn poeni beth fydd yn digwydd iddo ef/hi. Gall ***salwch meddwl yn y cartref*** ac ***esgeuluso emosiynol*** ddilyn hefyd, oherwydd gallai'r rhiant nad yw wedi troseddu brofi trawma a methu â phrosesu'r realiti bod ei bartner wedi cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol; fel y nodir ym Mhennod 2, mae anhwylder straen wedi trawma (PTSD) yn gyffredin ymhlith rhieni nad ydynt wedi troseddu, pa bynnag benderfyniadau y maent yn eu gwneud ynglŷn â dyfodol y berthynas. Efallai na fydd rhieni sy'n profi PTSD ar gael bob amser i ddiwallu anghenion eu plant, yn y tymor byr o leiaf.

Ein hawgrym ni, mewn cartrefi lle mae rhiant wedi cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, yw y dylai gweithwyr cymdeithasol ganolbwyntio ar y profiadau niweidiol y gallai plentyn fod wedi eu cael yn barod, ac *yn yr un modd* ar brofiadau yn deillio o ddarganfod yr ymddygiad hwnnw. Er bod y niweidiau cychwynnol yn cael eu achosi gan y rhiant sydd wedi troseddu, mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r risg o greu niweidiau eilaidd os nad yw ymyriadau angenrheidiol yn cael eu gwneud yn sensitif.

Rhaid ystyried pob niwed, a niweidiau posibl, wrth ddiogelu buddiannau'r plentyn/plant, beth bynnag yw canlyniad y system cyfiawnder troseddol neu unrhyw ymchwiliad diogelu; rhaid i 'ddiogelu', yn yr amgylchiadau hyn, ystyried yr holl niweidiau posibl y gallai'r plentyn fod wedi eu profi ac y gallai fynd ymlaen i'w profi.

Ymatebion emosiynol y plentyn/plant

Pan fydd yr heddlu (ar y cyd â gofal cymdeithasol plant yn aml) yn gwneud eu hymweliad cychwynnol â chartref y teulu, mewn llawer o achosion hwn fydd y cyswllt cyntaf y mae'r plentyn/plant wedi'i gael â phlismon neu weithiwr cymdeithasol. Yn anffodus, mae plant yn aml yn bresennol ar adeg yr arestiad, felly maent yn wynebu cyfres ofidus iawn o ddigwyddiadau, heb unrhyw allu i wneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd.

Gallai gofid y plentyn/plant ddeillio o:

- weld rhiant yn cael ei arestio, a'r rhiant o bosibl wedi dangos ystod o emosiynau cryf
- profi gofid a dryswch y rhiant nad yw wedi troseddu (trafodir hyn ym Mhennod 2)
- chwiliad o'r cartref
- cymryd ffôn, consol gemau neu ddyfeisiau electronig eraill ymaith
- ymatebion posibl gan gymdogion
- trafod ei deulu yn y cyfryngau ac ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol
- colli cyfeillgarwch, oherwydd yr effaith ar drefniadau chwarae a chyswllt arall â ffrindiau
- galar a cholled yn gysylltiedig ag absenoldeb y rhiant sydd wedi troseddu a/neu ei ffordd o fyw.

At ei gilydd mae plant yn dibynnu ar yr oedolion sydd o'u cwmpas i'w helpu i wneud synnwyr o sefyllfaoedd, ac yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd mae eu rhieni neu oedolion eraill yn eu bywydau y maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw yn gallu gwneud hyn. Fodd bynnag, pan fydd rhiant yn cael ei arestio am gael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, yn anaml iawn y mae gan y rhiant nad yw wedi troseddu ddigon o wybodaeth i allu gwneud synnwyr o'r sefyllfa ei hun – ac mae hyn yn debygol o effeithio ar ei les emosiynol ef/hi ei hun, gan amharu hefyd ar ei allu i helpu'r plentyn i wneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd. Yn ychwanegol at hyn, yn y sefyllfa hon efallai na fydd plentyn yn gallu troi at oedolyn arall y mae'n ymddiried ynddo, am nifer o resymau posibl:

- Efallai y bydd y rhiant nad yw wedi troseddu yn gyndyn o adael i aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau wybod am y sefyllfa, oherwydd ei fod yn ofni y bydd rhywun yn dial neu'n barnu, ac efallai y bydd wedi dweud wrth y plentyn am beidio â dweud wrth neb.
- Oherwydd agwedd cymdeithas at droseddu rhywiol, gallai plant sy'n dweud wrth oedolion o'u cwmpas wynebu ymatebion negyddol.
- Mewn llawer o sefyllfaoedd, ni fydd y plentyn yn gwybod beth sydd wedi digwydd, a'r cyfan y bydd yn ei wybod yw nad yw ei riant o gwmpas mwyach.

Beth bynnag y rheswm, mae'r plentyn yn aml yn cael ei adael yn llawn dryswch ac ansicrwydd, mewn sefyllfa lle mae'r rhai sydd o'i gwmpas yn debygol o fod yn profi ystod eang o ymatebion emosiynol eu hunain.

Ansefydlogrwydd ym mywyd y plentyn/plant

Ar ôl cael ei arestio, mae'n bosibl y bydd y rhiant sydd wedi troseddu yn destun ymchwiliad am gyfnod hir cyn i'r achos gael ei ddatrys, gan olygu bod y teulu cyfan yn teimlo'n ansicr. Gall y cyfnod hwn o ansefydlogrwydd i'r plentyn gael ei nodweddu gan nifer o ffactorau:

- **Anawsterau iechyd meddwl** gan y naill riant neu'r llall, oherwydd gallai'r rhiant sydd wedi troseddu fod yn cael trafferth i reoli ei gywilydd, tra mae'r rhiant nad yw wedi troseddu yn ceisio rheoli aruthredd ei sefyllfa.
- **Rhieni'n gwahanu neu'n ysgaru**, a all fod yn fwy tebygol yn y camau cynnar wrth i'r teulu geisio dygymod â realiti newydd.
- **Stigmateiddio** y plentyn/plant drwy gael eu cysylltu â'r rhiant sydd wedi troseddu; gallai plentyn gael ei gau allan yn gymdeithasol neu ei fwlio gan ei gyfoedion.
- **Amharu ar gyfleoedd i'r teulu fondio**, os nad yw'r rhiant sydd wedi troseddu yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau teuluol, gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol a gweithgareddau cymdeithasol.
- **Carcharu rhiant** – os bydd hyn yn digwydd, mae'r plentyn/plant fel arfer yn profi nifer o heriau. Mae gan elusen Children Heard and Seen **daflen wybodaeth** sy'n cynnwys cyngor i weithwyr proffesiynol ynglŷn â sut i ddeall ac ymateb i'r heriau hyn. .
- **Gwybod bod rhiant wedi troseddu**. Os yw plentyn yn gwybod beth mae ei riant wedi ei wneud, gall hyn achosi dryswch iddo – er enghraifft, efallai y bydd yn dechrau cwestiynu ei brofiadau ei hun o'i riant a'i fywyd teuluol.
- **Newid i drefniadau rheolaidd a bywyd teulu arferol**. Gallai bywyd plentyn/plant newid yn fawr ar ôl yr arestiad; er enghraifft, efallai y bydd yn rhaid i'r rhiant sydd wedi troseddu fyw yn rhywle arall, gan olygu o bosibl bod y teulu'n gorfod talu am gynnal dau gartref.

2. Yr effaith ar y rhiant nad yw wedi troseddu

"Mae'n deimlad o anobaith na alla i ei ddisgrifio, ac mae llawer o emosiynau'n dod gydag ef: cywilydd; gofid; embaras; cysylltiad; poeni; mae eich enw da yn y fantol, rydych yn poeni y bydd eich cartref yn cael ei dargedu. Mae llawer iawn i'w brosesu, ac ar ben hyn i gyd, mae'n rhaid i chi fynd i weithio a dal i fynd fel arfer, yna maen nhw'n dweud wrthych chi na chewch chi ddim siarad â neb." (Armitage et al, 2023)

Bydd y bennod hon yn eich helpu i ddeall effaith 'y Gnoc' ar y rhiant nad yw wedi troseddu, a rhai o'r ffactorau sy'n cyfrannu tuag at yr effaith hon. Bydd hefyd yn eich helpu i feddwl sut y gallai'r rhiant nad yw wedi troseddu ymateb ar ôl clywed beth mae ei bartner wedi ei wneud, a'r rhesymau posibl dros ei ymatebion.

Mae arestiad partner am gael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn aml yn cael effaith fawr, a all amlygu ei hun mewn ffyrdd sy'n debyg i symptomau anhwylder straen wedi trawma (Duncan et al, 2022). Mae dod i wybod beth mae ei bartner wedi cael mynediad ato, ynghyd â'r cysylltiad dilynol â'r system gyfiawnder troseddol a gwasanaethau plant, yn creu ymdeimlad dwys o golled gan fod pob agwedd ar fywyd y rhiant nad yw wedi cam-drin y plentyn (gan gynnwys yr agweddau cymdeithasol a galwedigaethol) yn cael ei newid a'i drysu. Mae angen y broses ymchwilio, ond mae'n bwysig deall a sylweddoli'r canlyniadau anfwriadol a allai ddeillio ohoni; fel y dywed Armitage et al (2023),*"er na allwn osgoi arestio [rhieni y mae amheuaeth eu bod wedi cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol], nac ychwaith osgoi effeithiau'r camau diogelu sy'n deillio o hynny, gallwn yn sicr ragweld pwy fydd yn cael ei effeithio a phryd y bydd yr effaith honno'n dechrau."*

Deall ymatebion cychwynnol y rhiant nad yw wedi troseddu

Ar adeg y Gnoc, bydd swyddogion yr heddlu yn mynd i mewn i gartref y teulu (yn ddirybudd yn aml) ac yn mynd drwy eiddo personol; efallai hefyd y byddant yn arestio'r partner, a hynny o bosibl pan mae'r plentyn/plant yn bresennol. Efallai y bydd cymdogion yn gwylio beth sy'n digwydd, a allai gynnwys mynd â dyfeisiau ymaith ac arestio'r partner

Gallai hyn achosi i'r rhiant nad yw wedi troseddu brofi emosiynau eithafol, gan gynnwys:

- sioc ac anghrediniaeth
- pensyfrdandod
- dryswch
- cyfog
- braw
- wedi'i fradychu
- ffieidd-dod
- cywilydd.

Er bod gofal cymdeithasol plant yn ymwneud â'r teulu, gallai'r rhiant nad yw wedi cam-drin:

- deimlo ei fod yn cael ei farnu neu ei feio am ymddygiad ei bartner, yn enwedig os yw'r rhiant nad yw wedi troseddu yn penderfynu aros yn y berthynas
- teimlo bod ei allu a'i gapasiti i amddiffyn ei blentyn/plant yn cael ei gwestiynu
- ofni y bydd ei blentyn/plant ei hun yn cael eu rhoi mewn gofal.

Yn ogystal â'r emosiynau a restrwyd uchod, gallai'r rhiant nad yw wedi troseddu brofi ystod eang o emosiynau cychwynnol sydd weithiau'n gwrthdaro, gan gynnwys:

- ofn a beio ei hun y gallai ei blentyn ef/hi ei hun fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol
- pryder ynglŷn ag ymateb ffrindiau a theulu, a beth y bydd pobl eraill yn ei feddwl ohono
- galar ynglŷn â cholli bywyd a pherthnasoedd blaenorol
- euogrwydd, beio ei hun a phoeni nad oedd yn bartner 'digon da'
- teyrngarwch tuag at ei bartner
- atgofion poenus am ei gamdriniaeth ei hun, os yw ef ei hun yn oroeswr cam-drin plant yn rhywiol
- meddwl am ddiweddu ei hun.

I lawer, mae'r llun sy'n datblygu o'u partner yn wahanol iawn i'r hyn y maen nhw'n ei wybod (neu'n meddwl eu bod yn ei wybod) am y person maen nhw'n ei garu ac yn ymddiried ynddo – i'r graddau bod eu hymatebion cychwynnol yn debygol o gynnwys "Does dim posibl bod hyn yn wir," neu "Mae'n rhaid eich bod wedi cael y person anghywir."

Mae gweithwyr proffesiynol weithiau'n gweld hyn fel arwydd bod y rhiant nad yw wedi troseddu yn lleihau'r risg bosibl o gam-drin yn y dyfodol, a'i fod felly yn methu ag amddiffyn ei blentyn/plant ei hun, ond mae gwadu yn amddiffyniad normal a gweithredol sy'n cynnig amddiffyniad rhag realiti poenus a thorcalonnus. Efallai y bydd y rhiant nad yw wedi troseddu yn teimlo bod ei fyd wedi'i droi â'i ben i waered, a gallai gwadu'r hyn a ddywedwyd wrtho fod yn ymdrech i ddal gafael ar ryw ymdeimlad o sicrwydd. Yn ogystal, gall fod yn anodd iawn i'r rhiant sylweddoli y gallai'r ddau fersiwn o'i bartner fod yn wir: bod partner a rhiant sydd fel arfer yn gariadus a gofalgar hefyd wedi cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol.

Gallai'r rhiant nad yw wedi troseddu hefyd wadu'r ymddygiad oherwydd ofn, dryswch neu gamsyniadau. Er enghraifft:

- Efallai y bydd yn credu y gall ddelio â'r sefyllfa ar ei ben ei hun, neu na fydd ei bartner yn gwneud hynny eto.
- Efallai y bydd yn teimlo na fydd yn gallu ymdopi ag agweddau ymarferol neu gyfrifoldeb ymarferol gofalu am ei deulu os bydd ei bartner yn cael ei arestio.
- Efallai y bydd yn poeni, os bydd yn ymddangos ei fod yn derbyn yr hyn sy'n cael ei ddweud yn ddi-gwestiwn, y cymerir bod hynny'n golygu bod yn rhaid ei fod yn gwybod yn barod neu ei fod yn rhan o'r peth.
- Efallai y bydd hefyd yn poeni y bydd derbyn yn dangos diffyg ffydd neu ymddiriedaeth yn ei bartner. Gall hyn fod yn heriol iawn os yw'r partner yn ddibynadwy ym mhob ffordd arall.
- Efallai y bydd ganddo ofn y bydd asiantaethau statudol yn dod i'r casgliad nad yw'n gallu amddiffyn ei blentyn/plant ei hun.
- Efallai, yn enwedig os yw wedi cael profiad o gam-drin rhywiol ei hun, y bydd yn teimlo'n rhy boenus i gredu bod ei bartner wedi cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol.

Mae'n bwysig cydnabod hefyd y gallai'r rhiant nad yw wedi troseddu fod wedi bod yn ymwybodol neu'n amheus o ymddygiad y partner sydd wedi troseddu, ond yn methu neu'n amharod i'w herio neu roi gwybod amdano. Os oedd y rhiant sydd wedi troseddu yn ymddwyn yn sarhaus tuag at ei bartner, er enghraifft, efallai ei fod wedi defnyddio ymddygiad rheolaethol, bygythiadau, codi ofn neu drais i rwystro'r partner rhag edrych yn fanwl ar ei ymddygiad neu roi gwybod amdano.

Effeithiau eraill

Gall prosesau cyfiawnder troseddol fod yn hir, ac yn aml iawn bydd y rhiant nad yw wedi troseddu yn teimlo ei fod wedi 'cael ei adael yn nhir neb'. Yn ystod y cyfnod hwn, efallai y bydd yn cael trafferth i drystio ei bartner, a gall hyn achosi iddo golli ffydd mewn perthnasoedd eraill. Gall y rhiant nad yw'n cam-drin wynebu sefyllfaoedd eraill hefyd:

- ei bartner yn gorfod gadael cartref y teulu yn sydyn
- yr angen i symud tŷ, oherwydd ofn ymateb dilynol gan y gymuned
- amharu ar waith ac incwm y teulu, yn enwedig os yw'r ymchwiliad wedi effeithio ar ei iechyd meddwl neu wedi ei adael fel yr unig un sy'n gofalu am y plentyn, felly mae'n rhaid iddo/iddi weithio llai o oriau neu roi'r gorau i weithio'n gyfan gwbl; yn ychwanegol at hyn, gallai'r rhiant sydd wedi troseddu fod wedi colli ei swydd ar ôl cael ei arestio
- costau newydd, er enghraifft costau cyfreithiol, costau gofal plant a therapi, a newidiadau mewn trefniadau byw (e.e. cynnal dau gartref i rieni sydd wedi gwahanu)
- cael ei gau allan o'r rhwydwaith teuluol ehangach a rhwydweithiau cymdeithasol – efallai y bydd ffrindiau a theulu'n ymbellhau, ac efallai y byddant yn ystyried y rhiant nad yw wedi troseddu yn 'euog drwy gysylltiad', neu'n ochri â'r rhiant sydd wedi troseddu.

Yr effaith ar y rhiant sydd wedi troseddu

3.

Amcangyfrifir bod y risg o hunanladdiad ymhlith dynion sydd wedi cael eu harestio am gael mynediad at ddelweddau rhywiol o blant 100 gwaith yn fwy na'r risg o hunanladdiad ymhlith y boblogaeth gyffredinol (Key et al, 2021). Nodwyd llawer o ffactorau cymhleth, cydgysylltiol fel rhai sy'n gysylltiedig â risg, gan gynnwys cywilydd, dim cyswllt troseddol blaenorol, bod yn briod ac â phlant, ac effaith ymchwiliad troseddol.

Mae'n ymddangos bod mwy o risg o hunanladdiad ar adegau pan mae bygythiad o ddatgelu i'r cyhoedd a phan fydd y broses gyfreithiol yn dod yn realiti – er enghraifft, adeg arestio, cyhuddo, mechniaeth, treial, ac euogfarn (Key et al, 2021). Un rheswm posibl am hyn yw effaith yr ymchwiliad troseddol ar les y rhiant sy'n troseddu: mae hyn wedi cael ei nodi fel ffactor risg ym mhob astudiaeth bron sy'n edrych ar droseddu sy'n gysylltiedig â deunydd cam-drin plant yn rhywiol.

Yn aml iawn mae dynion sydd wedi cael eu harestio am gael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn teimlo cywilydd mawr. Mae yna hefyd ymdeimlad (tybiedig) o golli'r gallu i weithredu/statws ymhlith teulu, ffrindiau, cymuned a chymdeithas yn gyffredinol. Er enghraifft, nid oes ganddynt euogfarnau blaenorol at ei gilydd, ac efallai fod ganddynt yrfa lwyddiannus a statws uchel yn eu cymuned. Mae datgelu eu trosedd, a'r heriau y maent yn eu profi wrth iddynt ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, yn brofiad trawmatig a allai eu gwneud yn fwy agored i feddyliau hunanladdol.

Bydd llawer o oedolion sy'n cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn dweud pethau fel hyn wrthynt eu hunain – "Mae'r plentyn yn edrych yn hapus felly mae'n rhaid nad ydy o'n brifo," neu "Nid fi ydy'r un sy'n cam-drin y plentyn yma yn uniongyrchol" – er mwyn gwneud i'w hymddygiad camdriniol ymddangos yn 'iawn'. Mae'n ymddangos bod y camsyniadau hyn yn eu gwarchod rhag teimladau negyddol amdanynt eu hunain, ond maent yn 'chwalu' yn hawdd pan gânt eu herio. Mae'r ymdeimlad dilynol o gywilydd a ffieidd-dod atyn nhw eu hunain, a allai hefyd fod wedi eu hatal rhag gofyn am gymorth yn gynharach, yn cynyddu'r risg o feddyliau hunanladdol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r rhan fwyaf o'r oedolion sy'n troseddu fel hyn yn ymwybodol y bydd pawb bron yn ffieiddio atynt am gyflawni trosedd o'r fath, ac mae hynny'n mynd i gael effaith fawr iawn ar rywun a oedd ag enw da cyn hyn.

Mae'n ymddangos bod gwasanaethau proffesiynol a all roi cefnogaeth i'r unigolion hyn heb eu barnu (helpu i reoli teimladau o gywilydd), a hefyd eu helpu i dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, yn gallu cynnig amddiffyniad rhag hunanladdiad. Gweler Pennod 13 am fanylion sefydliadau sy'n gweithio gyda rhieni sy'n troseddu.

Rhan B. Adnabod a deall risg a ffactorau amddiffynnol

Pryd bynnag rydych yn gweithio gyda theulu lle mae rhiant neu ofalwr wedi cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, bydd angen i chi asesu'r canlynol:

- y risgiau posibl y mae'r rhiant sy'n troseddu yn eu hachosi i blentyn/plant yng nghartref y teulu
- gallu y rhiant nad yw wedi troseddu i amddiffyn ei blentyn/plant
- diogelwch a lles cyffredinol y plentyn/plant yn y cartref.

Bydd proses unrhyw asesiad yn ddeinamig: wrth i chi gasglu mwy o wybodaeth, bydd angen i chi ei hintegreiddio i mewn i'ch asesiad. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn/plant efallai y bydd angen i chi wneud penderfyniadau cynnar am risg cyn cwblhau eich asesiad manylach, cyfannol o anghenion a risgiau o fewn y teulu. Mae'r penodau a ganlyn yn amlinellu'r hyn rydym yn ei wybod am bobl sy'n cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, a sut i asesu'r risgiau y byddant yn mynd ymlaen i gyflawni troseddau rhywiol all-lein.

Sylwer: Mae'r penodau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar sefyllfaoedd lle mae'r rhiant sydd wedi troseddu wedi cael mynediad at ddelweddau rhywiol o blant. Os ydynt wedi cael mynediad at ddeunyddiau eraill, er enghraifft 'llawlyfrau pedoffiliaid' neu wedi cyflawni troseddau rhywiol eraill ar-lein, at ddibenion eich asesiad dylech weithio ar y dybiaeth eu ***bod*** *yn achosi risg uniongyrchol i'r plentyn/plant yn y cartref ac na ddylent ddal i fyw yn y cartref. Os bydd asesiad arbenigol yn dod i gasgliad gwahanol, yna dylech ddiweddaru eich asesiad yn unol â hynny.*

4. Pwy sy'n cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ar-lein? Sut a pham maen nhw'n gwneud hynt?

Rhywbeth i feddwl amdano

Meddyliwch am funud am y llun sy'n dod i'ch pen pan ofynnir i chi feddwl am berson sy'n cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol. Pwy ydych chi'n ei weld? Sut mae ef/hi yn edrych? Gallai'r llun hwn fod yn seiliedig ar eich profiadau personol chi, neu ar stereoteip o sut y mae pobl o'r fath yn edrych. Sut allai eich canfyddiad chi o bwy sy'n cam-drin plant effeithio ar eich ymarfer a'ch gallu i adnabod ac ymateb i gam-drin rhywiol mewn amgylcheddau amrywiol?

Y canfyddiad mwyaf cyffredin am unigolion sy'n edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, neu'n rhannu deunydd o'r fath, yw eu bod gan amlaf yn oedolion gwrywaidd Ewropeaidd Gwyn (Hamilton a Belton, 2022). O gymharu â dynion sy'n cael eu dyfarnu'n euog o gam-drin plentyn yn rhywiol drwy gyswllt corfforol uniongyrchol, mae'r rhai hynny sy'n cael eu dyfarnu'n euog o gael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn llai tebygol o fod ag euogfarnau blaenorol, hanesion gwrthgymdeithasol blaenorol, anawsterau iechyd meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau (Babchishin et al, 2015); maent hefyd yn fwy deallus, wedi'u haddysgu i lefel uwch, ac yn llai tebygol o fod yn ddi-waith (Babchishin et al, 2011; Babchishin et al, 2015).

Cymhelliant a llwybrau sy'n arwain at wylio deunydd cam-drin plant yn rhywiol

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r ymchwil mewn cysylltiad â sut a pham y mae rhai oedolion yn cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol. Nid yw'r adnodd hwn yn disgrifio'r holl ymchwil yn y maes hwn, ond dylai'r crynodeb a ganlyn roi digon o wybodaeth i ganiatáu i chi ystyried y cymhelliant a'r llwybrau sy'n arwain at y math hwn o droseddu. Bydd hyn yn sail i'ch asesiad, eich penderfyniadau a'ch cynlluniau i sicrhau diogelwch.

Rydym yn argymell yn gryf hefyd eich bod yn darllen crynodeb y Ganolfan CPRh o ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Gam-drin Plant yn Rhywiol gan Oedolion gyda Chymorth Technoleg***.

Mae twf y Rhyngrwyd wedi hwyluso edrych ar bornograffi cyfreithlon, ac mae'r 'Triple A Engine' a ddisgrifir gan Cooper (1998) yn egluro atyniad y rhyngrwyd i'r rhai sy'n chwilio am bornograffi. Mae anonymedd *('anonymity')* yn caniatáu i'r unigolyn edrych ar ddelweddau gan fod yn gymharol hyderus na fydd yn cael ei ddarganfod. Mae fforddiadwyedd *('affordability')*, gyda safleoedd di-dâl a deunydd y gellir ei gyfnewid am ddim yn cymryd lle DVDs drud, yn golygu bod llai o gyfyngiadau economaidd i atal gwylio. Mae mynediad *('access')* cyflym a hawdd wedi golygu bod miliynau o unigolion yn defnyddio'r Rhyngrwyd fel ffordd o fynegi ac archwilio eu rhywioldeb.

Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r pornograffi cyfreithlon sydd ar gael ar wefannau prif ffrwd yn cynnwys llawer o ddeunydd sy'n ecsbloetio, yn dangos casineb tuag at fenywod neu'n wyrdroëdig, a bod y cynnwys yn dangos trais rhywioledig a themâu ecsbloetio (Vera-Grey et al, 2021).

Bydd rhai oedolion gwrywaidd sy'n cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn gwneud hynny oherwydd bod ganddynt ddiddordeb rhywiol mewn plant, ond mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn wir am bob dyn sy'n cyflawni'r troseddau hyn. Mae llawer o ymchwilwyr wedi nodi llwybr cyffredin sy'n arwain at wylio deunydd cam-drin plant yn rhywiol, lle mae unigolion yn symud ymlaen o edrych ar bornograffi cyfreithlon i ddechrau. Maent yn edrych ar ddeunydd mwy eithafol, a deunydd yn portreadu plant cynyddol iau (Hamilton a Belton, 2022; Rimer a Holt, 2023). Mae cynnwrf yn lleihau swildod ac yn lleihau'r ymateb ffieiddio (Henshaw et al, 2018). Os yw rhywun yn edrych ar ddeunydd dro ar ôl tro mae'r deunydd yn gallu cael ei normaleiddio, ac ymhen tipyn ni fydd yn darparu'r lefel wreiddiol o gynnwrf (Fortin et al, 2018). Gallai'r prosesau hyn arwain at ymgysylltu â deunydd mwy eithafol neu wyrdroëdig, a all gael ei ddwysáu gan algorithmau sy'n cyflwyno deunydd tebyg dro ar ôl tro i ddefnyddwyr (WeProtect Global Alliance, 2021). Mae llawer o ddynion sy'n cael eu dyfarnu'n euog o droseddau delweddau cam-drin plant yn rhywiol wedi cymharu eu hymddygiad â chaethiwed (Rimer a Holt, 2023).

I rai unigolion, mae'r chwilio am ddeunydd rhywiol gwyrdroëdig – a'r disgwyl i'w ganfod – ynddo'i hun yn ysgogi systemau gwobrwyo yn yr ymennydd (Steel et al, 2022). Mae'n bosibl y bydd unigolion sy'n casglu deunydd rhywiol yn cael pleser pan fyddant yn dod o hyd i ddelweddau prin neu'n cwblhau cyfres o ddelweddau (Fortin et al, 2018).

Mae'r Internet Watch Foundation wedi sylwi yn ddiweddar ar gynnydd mawr yn nifer y parthau Rhyngrwyd sydd wedi'u creu er budd ariannol yn unig, yn enwedig mewn cysylltiad â gorelwa a hudo plant i gynhyrchu delweddau (IWF, 2021).

Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dynion a gafwyd yn euog o fod â delweddau cam-drin plant yn rhywiol yn eu meddiant wedi nodi bod nifer anghymesur o unigolion ag awtistiaeth yn y boblogaeth honno, a allai fod yn gysylltiedig â thuedd i gasglu a chatalogio delweddau (Allely, 2020).

Lle mae menywod yn ymwneud â chynhyrchu delweddau cam-drin plant yn rhywiol, maent fel arfer yn cael eu cymell gan awydd rhywiol am blant, a bechgyn fel arfer (Augarge a Rydon-Grange, 2022). Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod rhai merched sy'n cyrchu a/neu'n cynhyrchu deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn gwneud hynny fel rhan o ddeinameg perthynas orfodol gyda phartner gwrywaidd. Er bod 97% o'r delweddau y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r Internet Watch Foundation (IWF) yn portreadu merched, mae hanner y delweddau sy'n *dangos cam-drinwyr benywaidd* yn eu portreadu yn cam-drin bechgyn (IWF, 2021); mae ychydig dros hanner y cynnwys hwn yn portreadu gweithgaredd rhywiol treiddiol, sadistiaeth neu weithgaredd rhywiol rhwng person ac anifail. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod menywod sy'n cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn debygol o gael hanesion o drais gan bartner agos neu drais rhywiol.

Rhywbeth i feddwl amdano

Treuliwch ychydig funudau yn meddwl am yr hyn rydych wedi ei ddysgu yn yr adran hon, a meddyliwch am unrhyw ymatebion y gallech fod wedi eu cael i'r wybodaeth.

A oedd unrhyw wybodaeth yn sioc i chi neu'n anghredadwy? Os oedd, oes angen i chi ystyried darllen mwy am agwedd neu bwnc penodol?

Ydych chi wedi cael ymateb emosiynol i'r wybodaeth? Os do, beth allai eich helpu i weithio eich ffordd drwy hynny?

A oes angen i chi roi hyn ar yr agenda ar gyfer trafodaeth mewn sesiwn goruchwylio neu ofyn am gymorth gan gydweithiwr?

5.

Gwneud penderfyniadau cynnar am risg i blant a sicrhau diogelwch plant

Un o'r cwestiynau cyntaf y bydd angen i'ch asesiad fynd i'r afael ag ef yw a yw'r rhiant sydd wedi troseddu yn achosi risg uniongyrchol i'w blant ei hun neu i blant eraill. Mae'r bennod hon yn crynhoi ymchwil sy'n mynd i'r afael â'r cwestiwn "Os yw rhiant wedi cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, a yw hyn yn cynyddu'r risg y bydd yn cam-drin plentyn yn rhywiol all-lein yn y dyfodol, a/neu a yw'n awgrymu bod y plentyn/plant yn y cartref wedi wynebu risg sylweddol yn barod?"

Mae'n hanfodol bod cyswllt yn digwydd rhwng gwasanaethau plant a'r heddlu cyn yr arestiad, fel bod modd gwneud asesiad cychwynnol o'r risg. Er mwyn deall y risg y gallai'r rhiant sydd wedi troseddu ei hachosi, mae angen i chi gadw nodweddion amrywiol o'i ymddygiad mewn cof. Bydd swm yr wybodaeth sydd ar gael i chi yn effeithio ar y ffordd y byddwch yn gwneud eich asesiad, ac mae'n bosibl na fydd rhywfaint o'r wybodaeth yn yr adran hon ar gael ar adeg eich asesiad.

Er enghraifft, yn aml iawn gall dealltwriaeth o gynnwys y delweddau a phatrwm cael mynediad at ddelweddau eich helpu i ddeall y cymhelliant a'r risgiau sy'n cael eu hachosi gan y rhiant sydd wedi troseddu. Yn aml iawn y dyddiau hyn mae ymchwiliadau'r heddlu yn anfon technegwyr Fforensig Digidol i'r 'lleoliad' fel bod modd nodi'r risg cyn gynted ag y bo modd. Mae rhan o'r broses 'frysbennu' hon yn cynnwys chwilio am ddelweddau sydd wedi cael eu tynnu gan y sawl sydd wedi cael ei arestio (a elwir yn ddelweddau cenhedlaeth gyntaf). Fodd bynnag, yn y cam hwn nid yw'n debygol y bydd archwiliad llawn wedi'i wneud, felly mae'n bosibl na fydd y risg yn dod yn amlwg tan yn nes ymlaen – ond bydd angen o hyd i chi wneud asesiad o'r risgiau y mae'r rhiant sydd wedi troseddu yn eu hachosi i'w blentyn/plant, ac i blant eraill o bosibl.

Gwneud penderfyniadau cychwynnol ynglŷn â risg a diogelwch

Gallai'r dystiolaeth mewn cysylltiad â'r risg uniongyrchol sy'n cael ei hachosi ymddangos yn groes i'r hyn y byddid yn ei ddisgwyl ond ei bod yn gyson: yn gyffredinol, mae oedolion sydd wedi eu cael yn euog o gael mynediad at ddelweddau rhywiol o blant, ond nad ydynt wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol eraill, yn achosi risg gymharol isel o aildroseddu drwy gam-drin plentyn yn rhywiol all-lein (gweler Hirschtritt et al, 2019; Seto et al, 2011; Elliott et al, 2019). Ar y llaw arall, mae'r rhai sydd wedi cyflawni'r ddau fath o drosedd yn peri risg llawer uwch o aildroseddu.

Bydd angen i chi ddeall pa ffactorau allai awgrymu bod y rhiant sydd wedi troseddu yn achosi mwy o risg o gam-drin plentyn yn rhywiol all-lein a/neu aildroseddu ar-lein. Mae ymchwil wedi canfod bod y risg o 'groesi drosodd' yn fwy tebygol o fod o droseddu all-lein i edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, yn hytrach na'r ffordd arall. O ganlyniad, mae'n bwysig edrych am arwyddion y gallai'r plant sydd yng nghartref y teulu, neu blant eraill y mae gan y rhiant sydd wedi troseddu fynediad atynt (e.e. ffrindiau'r plant, neu blant yn y teulu ehangach), fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn barod. Er enghraifft, gofynnwch i chi eich hun:

- A yw'r plant yn ffynnu?
- Sut berthynas sydd ganddynt gyda'r rhiant sydd wedi troseddu?
- Sut berthynas sydd ganddynt gydag oedolion eraill yng nghartref y teulu?
- I ba raddau y gallant fynegi eu pryderon? (Gallai eu hoed ac unrhyw ffactorau eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed, anableddau ac ati leihau eu gallu i wneud hynny.)

Bydd y cwestiynau isod hefyd yn eich helpu i ddeall a yw'r rhiant sydd wedi troseddu yn achosi risg o gam-drin plentyn yn rhywiol all-lein. Gallai ateb 'oes' i unrhyw un o'r cwestiynau hyn awgrymu mwy o risg o groesi drosodd i droseddu rhywiol all-lein:

- A oes gan y rhiant euogfarnau blaenorol, neu a oes honiadau wedi'u gwneud yn ei erbyn, am droseddau rhywiol 'cyswllt'?
- A oes ganddo euogfarnau blaenorol am droseddau rhywiol eraill?
- A oes ganddo euogfarnau blaenorol eraill (heb fod yn rhai rhywiol)?
- A yw wedi sgwrsio â phlant ar-lein, neu wedi sgwrsio ag oedolion am ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol neu droseddu rhywiol?
- A yw'n dod i gysylltiad â phlant trwy ei gyflogaeth neu weithgareddau gwirfoddol?
- A oes ganddo hanes o ddefnydd gormodol o gyffuriau neu alcohol?
- A yw ei ffordd o fyw yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn ddi-strwythur (h.y. cyflogaeth a gweithgareddau â phwrpas iddynt)?
- A oes pryder am ddynameg camdriniol a/neu ansefydlogrwydd yn eu perthnasoedd cyfredol neu ddiweddar cyn dechrau ymchwiliad yr heddlu?
- A oes ganddo hanes o nifer o bartneriaid rhywiol yn ddiweddar?
- A oes unrhyw beth o'r chwiliadau cychwynnol o'i ddyfeisiau sy'n dangos risg o aildroseddu? (Gweler Pennod 7 am fanylion yr hyn y gallai fod angen i chi feddwl amdano yma.)

Gallwch ddefnyddio **Templed Arwyddion a Dangosyddion** y Ganolfan CPRh i'ch helpu i feddwl am:

- unrhyw arwyddion corfforol, emosiynol neu ymddygiadol o gam-drin rhywiol a ddangosir gan y plentyn/plant yn y teulu
- unrhyw ymddygiadau sy'n cael eu harddangos gan y rhiant sydd wedi troseddu a allai awgrymu ei fod yn achosi risg uniongyrchol i'w blentyn/plant ei hun
- unrhyw ffactorau yn y teulu neu'r amgylchedd a allai gynyddu cyfleoedd i gamdriniaeth ddigwydd.

Pryd bynnag y mae arwyddion bod y rhiant sydd wedi troseddu yn achosi risg o gam-drin rhywiol i blentyn yn y cartref, neu os oes tystiolaeth bod niwed wedi'i wneud yn barod, dylid gwneud penderfyniad i symud yr oedolyn o gartref y teulu.

Rhywbeth i feddwl amdano

Mae'n werth pwyllo yn awr a meddwl beth rydych wedi ei ddysgu am y rhiant sydd wedi troseddu a'r teulu. Os ydych yn gweld eich bod wedi creu darlun sy'n awgrymu bod posibilrwydd bod plentyn/plant y rhiant sydd wedi troseddu wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, bydd angen i chi feddwl beth i'w wneud nesaf. Bydd yr hyn y byddwch yn ei wneud yn dibynnu ar yr wybodaeth sydd gennych, ond un peth y mae'n debyg y bydd angen i chi ei wneud yw siarad â'r plentyn/plant.

Siarad â'r plentyn/plant

Mae **Canllaw Cyfathrebu gyda Phlant** y Ganolfan CPRh yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y ffordd fwyaf effeithiol a sensitif o siarad â phlant a allai fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.

Os ydych yn amau bod plentyn yn cael ei gam-drin, neu wedi cael ei gam-drin, efallai y byddwch yn gweld nad yw'n dweud wrthych am hynny pan fyddwch chi'n siarad ag ef/hi. Mae llawer o resymau pam nad yw plant yn siarad am gam-drin rhywiol, gan gynnwys pryderon ynglŷn â beth fydd yn digwydd os byddant yn dweud wrth rywun.

Gofynnwch i chi eich hun:

- "Beth allai fod yn rhwystro'r plentyn yma rhag dweud wrtha i beth sy'n digwydd?"
- "Pam y gallai'r plentyn fod yn poeni ynglŷn â dweud wrtha i?"
- "Beth arall mae angen i mi ei ddysgu er mwyn deall y rhwystrau hyn yn iawn?"
- "Alla i helpu'r plentyn i oresgyn y rhwystrau hyn – ac os galla i, sut?"
- "Pa gymorth ychwanegol y gallai'r plentyn fod ei angen?"
- "Gan bwy y galla i gael cyngor?"

Atgyfeirio

Efallai y byddwch yn teimlo bod angen asesiad arbenigol o risg y rhiant sydd wedi troseddu, neu o allu'r rhiant nad yw wedi troseddu i amddiffyn y plentyn/plant. Bydd rhai darpariaethau ar gael yn eich ardal leol, ac mae gwasanaethau sydd ar gael yn genedlaethol hefyd.

The Lucy Faithfull Foundation yn darparu cyngor, asesiadau risg ac ymyriadau i oedolion gwrywaidd a benywaidd sydd wedi cyflawni trosedd rywiol yn erbyn plentyn, neu yr honnir eu bod wedi gwneud hynny. Mae hefyd yn darparu asesiadau rhianta amddiffynnol i rieni nad ydynt wedi troseddu ac aelodau eraill o'r teulu.

Mae gan **StopSO** rhwydwaith annibynnol ledled y DU o weithwyr proffesiynol profiadol â chymwys, sydd wedi'u hyfforddi i weithio gyda phobi sydd wedi cyflawni trosedd rywiol neu sydd mewn perygl o gyflawni trosedd rywiol.

Cynllunio diogelwch

6.

Os nad oes arwyddion bod y rhiant sydd wedi troseddu yn achosi risg uniongyrchol i blant, bydd angen i chi gysylltu â'r rhiant nad yw wedi troseddu a'r heddlu er mwyn meddwl pa lefel o gyswllt sy'n ddiogel i'r rhiant sydd wedi troseddu ei chael gyda'i blentyn/plant. Wrth gwrs, bydd nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y penderfyniad hwn:

- **Dymuniadau pawb yn y teulu.** Ni ddylai'r rhiant nad yw wedi cam-drin byth gael ei roi mewn sefyllfa lle disgwylir iddo ddal i fyw gyda'r rhiant sydd wedi troseddu os nad yw'n dymuno hynny. Yn yr un modd, os oes unrhyw arwyddion nad yw'r plentyn yn gyfforddus yn byw neu'n cael cyswllt â'r rhiant sydd wedi troseddu, rhaid cymryd hyn o ddifri.

- **Ymateb y rhiant sydd wedi troseddu.** Mae angen i'r rhiant sydd wedi troseddu dderbyn y bydd yn rhaid iddo fyw yn wahanol iawn. Er enghraifft, Os yw'n amharod neu'n methu â gweld yr angen am gynllun diogelwch, nid yw'n debygol o'i ddilyn; byddai hyn yn awgrymu na ellir rheoli risgiau yn y cartref, neu mewn lleoliadau cyswllt eraill, yn effeithiol.

- **Dealltwriaeth gan bob aelod o'r teulu o'r angen am gynllun diogelwch, a'u parodrwydd i ddatblygu un gyda'i gilydd.** Er mwyn gallu datblygu cynllun diogelwch effeithiol, mae angen i'r teulu allu gweithio gyda'i gilydd. Os oes cydbwysedd grym anghyfartal a bod gan y rhiant nad yw wedi troseddu lai o rym yn y berthynas, mae'n debyg na ellir disgwyl i'r teulu weithio gyda'i gilydd yn gydlynol; gallai hyn ddigwydd lle mae'r rhiant sydd wedi troseddu yn ceisio rheoli'r rhiant nad yw wedi troseddu, neu'n ymddwyn yn gamdriniol tuag ato, mewn sefyllfaoedd lle mae ffydd neu ddiwylliant y teulu yn credu bod gan fenywod a merched statws is na dynion a bechgyn, neu lle mae gan y partner nad yw wedi troseddu ffactorau eraill sy'n ei wneud yn agored i niwed, er enghraifft anawsterau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, a allai leihau ei allu amddiffynnol.

Gall defnyddio **Templed Arwyddion a Dangosyddion** y Ganolfan CPRh eich helpu i feddwl yn benodol am unrhyw ffactorau yn y teulu neu'r amgylchedd a allai gynyddu cyfleoedd i gam-driniaeth ddigwydd.

Os *gellir* datblygu cynllun diogelwch i gefnogi cyswllt, mae'n bwysig cadw'r canlynol mewn cof:

- Dylid datblygu cynllun diogelwch gyda'r teulu bob amser. Dylid cynnwys pawb sy'n byw yn y teulu sy'n gallu deall y broses ac ymgysylltu â hi. Lle nodir bod aelodau o'r teulu estynedig yn gefnogol ac yn amddiffynnol, efallai y byddech yn hoffi eu cynnwys nhw yn y cynllun hefyd; mae hyn yn hanfodol os ydynt yn goruchwylio cyswllt neu amser teulu, ac mae'n ddefnyddiol os ydynt yn ymweld â'r cartref yn aml, yn gofalu am y plentyn/plant, neu'n ymwneud â bywydau bob dydd y teulu.

- Mae'n bwysig nad oes neb yn y teulu yn cael cyfrifoldeb am rywbeth na ddylai fod yn gyfrifoldeb iddo ef/hi. Er enghraifft, ni ddylid dweud wrth blentyn am "fod yn ofalus o gwmpas dy fam/dy dad" neu "edrych ar ôl dy hun". Cofiwch *nad* yw cynllun diogelwch yn briodol mewn sefyllfaoedd lle nad oes gan y rhiant nad yw wedi troseddu'r gallu i amddiffyn ei blentyn/plant.

- Mae'r cynllun diogelwch yn ddogfen weithio a dylai gael ei hadolygu'n gyson gan y teulu, â'ch cymorth chi.

- Bydd cynllun diogelwch da ac effeithiol yn cael ei ysgrifennu mewn ffordd y mae'r teulu'n teimlo ei bod yn eu cynrychioli nhw a'u sefyllfa.

Efallai y byddai'n briodol rhannu elfennau o'r cynllun diogelwch â darparwr/darparwyr addysg y plentyn/plant).

Cydrannau cynllun diogelwch effeithiol

✓ Wedi'i ddatblygu a'i gytuno gan y teulu cyfan.

✓ Yn defnyddio iaith sy'n ystyrlon i'r teulu cyfan.

✓ Yn rhoi disgwyliadau realistig ar aelodau o'r teulu.

✓ Yn parchu ac yn adeiladu ar gryfderau presennol y teulu.

✓ Yn ystyrlon i bawb yn y teulu.

✓ Yn ystyried 'amseroedd lle mae risg' er enghraifft amser gwely, amser bath, cysgu yn nhŷ rhywun arall, cael ymwelwyr, gwyliau ac ati.

✓ Yn rhoi sylw i gyfathrebu yn y teulu.

✓ Yn cynnwys ffocws ar ddefnyddio technoleg.

✓ Yn cael ei barchu a'i gefnogi gan rwydwaith cefnogi ehangach y teulu.

✓ Yn caniatáu lle ar gyfer adolygu rheolaidd wrth i sefyllfaoedd newid.

✓ Yn ystyried meysydd allweddol megis:

- trefniadau ystafell wely a chysgu
- trefniadau ystafell ymolchi/toiled
- chwarae a gweithgareddau eraill yn y cartref a'r tu allan
- rolau a chyfrifoldebau brodyr a chwiorydd
- noethni yn y teulu
- rhywioldeb yn y teulu, er enghraifft sut mae'r teulu'n siarad am ryw a datblygiad rhywiol gyda'i gilydd ac o amgylch ei gilydd
- ffiniau'r teulu, gan ystyried pethau fel preifatrwydd a sut mae hynny'n cael ei gyfathrebu a'i barchu; sut mae aelodau o'r teulu'n cyfathrebu eu ffiniau personol eu hunain; cyswllt corfforol, er enghraifft 'ymladd chwareus'; a pha mor hyderus y mae aelodau o'r teulu'n teimlo wrth fynegi rhywbeth nad ydynt yn ei hoffi neu nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus ag ef
- mynediad at dechnoleg.

Asesiad parhaus yn dilyn gwybodaeth ychwanegol

7.

Mae'r bennod hon yn disgrifio ffactorau eraill i'w hystyried yn eich asesiad, os yw'r wybodaeth ar gael i chi.

Cofiwch, mae'n hanfodol mynd yn ôl at y cynllun diogelwch (gweler Pennod 6) yn dilyn unrhyw wybodaeth newydd.

Beth ydych chi'n ei wybod am weithgaredd ar-lein y rhiant sydd wedi troseddu?

Gall gymryd llawer iawn o amser i ddadansoddi cyfrifiaduron, ond yn aml iawn bydd gan yr heddlu wybodaeth a all gyfrannu at yr asesiad. Er enghraifft, efallai y byddant yn gallu dweud wrthych am hanes pori'r rhiant sydd wedi troseddu, natur y deunydd cam-drin plant yn rhywiol y cawsant fynediad ato, yr amser pan oeddent yn cael mynediad ato, a sut y mae'r unigolyn wedi rhyngweithio â phobl eraill ar-lein. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall a oes unrhyw arwyddion ei fod yn achosi mwy o risg o gam-drin plentyn yn rhywiol all-lein.

Mewn arolwg o unigolion yn chwilio am ddelweddau o gam-drin plant yn rhywiol yn y we dywyll (y rhan o'r We Fyd-eang na ellir cael mynediad ati heb feddalwedd arbennig, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr a gweithredwyr gwefannau aros yn ddienw neu heb ffordd o'u holrhain), roedd ymatebwyr a oedd hefyd wedi ceisio cael cyswllt uniongyrchol â phlant drwy blatfformau ar-lein yn fwy tebygol o fod wedi edrych ar ddelweddau yn amlach, edrych ar ddelweddau yn portreadu plant bach a babanod, a/neu o fod wedi bod yn cyfathrebu â phobl eraill sy'n edrych ar ddelweddau cam-drin plant yn rhywiol (Insoll et al, 2022).

Sut y gwnaethon nhw gael mynediad at y deunydd yn y lle cyntaf?

Bydd hefyd yn ddefnyddiol gwybod sut y gwnaeth y rhiant sydd wedi troseddu gael mynediad yn y lle cyntaf at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol. Er enghraifft, efallai ei fod wedi clicio ar ddolenni o safleoedd pornograffi prif ffrwd, neu ei fod wedi defnyddio termau chwilio sy'n awgrymu ei fod yn ceisio cael mynediad at gynnwys anghyfreithlon (e.e. "daddy/daughter incest"). Mae rhai oedolion yn cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol drwy ddefnyddio safleoedd rhannu cydradd (peer-to-peer), neu drwy fyrddau negeseuon ar y we dywyll. Bydd yr wybodaeth hon yn rhoi syniad i chi ynglŷn â chymhellion y rhiant sydd wedi troseddu (gweler Pennod 4).

Rhoi sylw i gamsyniadau cyffredin

Er bod deall gweithgaredd ar-lein y rhiant sydd wedi troseddu yn rhan bwysig o'ch asesiad, mae rhai camsyniadau cyffredin y dylech fod yn ofalus nad ydych yn eu mabwysiadu.

Yn gyntaf, ni ddylid cymryd bod nifer y delweddau o gam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu darganfod yn arwydd o risg o droseddu cyswllt. Er enghraifft, os yw'r rhiant sydd wedi troseddu yn cael ei arestio pan mae newydd ddileu nifer fawr o ddelweddau, mae'n bosibl y bydd y dadansoddiad fforensig yn datgelu canran fach yn unig o'r delweddau a oedd ganddo yn ei feddiant ar un adeg. Yn ychwanegol at hyn, gallai bod â nifer fawr o ddelweddau yn ei feddiant fod yn arwydd o awydd i gasglu yn hytrach nag arwydd bod yr unigolyn yn achosi mwy o risg o gam-drin plentyn yn rhywiol all-lein.

Yn ail, nid yw categorïau'r delweddau sy'n cael eu darganfod o reidrwydd yn ddangosydd dibynadwy o'r risg y mae'r unigolyn yn ei hachosi all-lein. Er enghraifft, efallai fod angen defnydd mwy medrus o'r rhyngrwyd i gael mynediad at ddelweddau 'Categori A' (e.e. delweddau o weithgaredd rhywiol treiddiol yn ymwneud â phlant) nag i gael mynediad at ddelweddau 'Categori C' (e.e. delweddau o blant yn ymddwyn mewn modd rhywiol). O ganlyniad, mae'n bosibl nad yw unigolion nad oes ganddynt y sgiliau hyn yn gallu cael mynediad at y deunyddiau hynny, felly gallai eu casgliad ymddangos yn llai 'difrifol' nag y byddent yn bwriadu fel arall. Er hyn, mae rhai eithriadau amlwg yn ymwneud â deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol eraill: er enghraifft, os oes gan unigolyn 'lawlyfr pedoffiliaid' yn ei feddiant mae hynny'n arwydd clir ei fod yn achosi risg uchel o aildroseddu ar-lein ac all-lein.

Beth ydych chi'n ei wybod am y deunydd?

Os gallwch ddod i wybod beth yw cynnwys y delweddau y mae'r rhiant sydd wedi troseddu wedi cael mynediad atynt, bydd hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer eich asesiad.

Oed y plentyn/plant

Mae unigolion sy'n cyrchu llawer iawn o ddeunydd sy'n cynnwys bechgyn cyn-glasoed yn llawer mwy tebygol o achosi risg o gam-drin rhywiol all-lein nag unigolion y mae eu casglu yn canolbwyntio ar blant hŷn a benywod. (Seto ac Eke, 2015).

Rhyw y plentyn/plant

Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu, os yw unigolyn wedi cael mynediad at fwy o ddelweddau o fechgyn nag o ferched, y gallai hynny achosi mwy o risg o aildroseddu ar-lein (Seto ac Eke, 2015).

Ffocws ar 'fath' arbennig o blentyn

Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu, lle mae delweddau'n canolbwyntio/hangori ar blant o oedran a rhyw penodol, bod mwy o risg o droseddu all-lein. Gall hyn fod yn gysylltiedig â ffantasi rhywiol neu ddiddordeb mewn plant o'r oedran a'r rhyw hwnnw (Long et al, 2013). O ganlyniad, mae'r risgiau o gam-drin plentyn yn rhywiol all-lein, neu o aildroseddu ar-lein, yn debygol o fod ar eu huchaf tuag at blant o'r fath. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylid diystyru risgiau i blant eraill.

Perthynas rhwng y plentyn/plant a'r sawl sy'n edrych ar y delweddau

Er enghraifft, os oes gan unigolyn ddelweddau rhywiol o'i blentyn/plant ei hun yn ei feddiant, neu o blant eraill y mae'n eu hadnabod yn bersonol, mae hyn yn arwydd clir ei fod eisoes wedi cam-drin y plentyn hwn yn rhywiol a'i fod yn achosi risg sylweddol.

A gafodd unrhyw rai o'r delweddau eu cynhyrchu gan y rhiant sydd wedi troseddu?

Lle bynnag y mae rhiant sydd wedi troseddu wedi tynnu lluniau o'i blant ei hun, mae eisoes wedi eu cam-drin yn rhywiol felly rhaid asesu'r risg o ragor o gam-drin rhywiol fel un uchel.

Mae rhai gwefannau a ddefnyddir i gael mynediad at ddelweddau yn gofyn i ddefnyddwyr gynhyrchu delweddau cyn y gallant edrych ar ddelweddau sy'n bodoli'n barod. Mae'r cyfnewid hwn i'w weld gan amlaf ar y we dywyll. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae risg y gallai'r oedolyn fod wedi tynnu a rhannu delweddau o'i blentyn/plant ei hun er mwyn cael mynediad at ddelweddau eraill.

Beth ydych chi'n ei wybod am fywyd y rhiant sydd wedi troseddu all-lein?

Bydd cael rhywfaint o ddealltwriaeth o fywyd 'go iawn' y rhiant sydd wedi troseddu, gan gynnwys sut y mae hyn yn rhyngweithio â'i weithgaredd ar-lein, yn eich helpu i feddwl mwy am ei gymhelliant i gael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol – a bydd yn cyfrannu at eich asesiad o'r risgiau y mae'n eu hachosi.

Er enghraifft, os yw wedi datblygu cyfeillgarwch all-lein ag oedolion eraill sy'n troseddu, gallai hyn awgrymu rhyw lefel o duedd tuag at droseddu. Yn yr un modd, os yw'n cael trafferth i gynnal hobïau, gweithgareddau a diddordebau sy'n helpu pobl i gael eu derbyn yn gymdeithasol, gallai hyn hefyd awgrymu tuedd tuag at droseddu. Un o'r camau cyntaf er mwyn hybu adferiad ac ymataliad yw ailgydio mewn gweithgareddau cadarnhaol.

Rhan C. Darparu ymatebion cefnogol i'r teulu cyfan

Pan fydd rhiant neu ofalwr yn destun ymchwiliad gan yr heddlu oherwydd ei fod wedi cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol, mae'r ymatebion cynnar y mae ei deulu'n eu cael yn rhai cryf iawn. Fel arfer teimlir bod ymatebion cadarnhaol, deallus nad ydynt yn barnu yn gefnogol, tra gall ymatebion anwybodus, beirniadol a goddrychol arwain at drawma mawr ar draws y teulu cyfan, neu wneud y trawma'n waeth.

8. Prif elfennau ymateb cefnogol

Mae meddwl am y rhyngweithiadau cyntaf rydych yn eu cael gyda'r teulu, yn ogystal â sut rydych yn rheoli pob rhyngweithiad dilynol, yn allweddol er mwyn sicrhau bod y teulu'n cael ei ddiogelu rhag niwed ac yn teimlo ei fod yn cael cefnogaeth dda.

Gwrandewch a pheidiwch â gwneud tybiaethau

Mae'n bosibl bod y teulu mewn sioc. Efallai nad ydynt yn gofyn y mathau o gwestiynau rydych yn eu disgwyl, neu efallai eu bod yn gofyn llawer o gwestiynau. Mae gwrando ar bawb yn y teulu, heb farnu, yn hollbwysig er mwyn meithrin perthnasoedd effeithiol a chefnogol. Efallai y byddai'n werth mabwysiadu agwedd 'addysga fi', drwy ofyn cwestiynau fel "Gyda beth rwyt ti angen help?" neu "Beth rwyt ti'n poeni fwyaf amdano ar hyn o bryd?" er mwyn i chi allu deall anghenion unigol pob aelod o'r teulu.

Mae angen gadael i deuluoedd weithio drwy'r holl wahanol emosiynau y gallent fod yn mynd drwyddynt heb deimlo eu bod yn cael eu barnu oherwydd eu teimladau. Peidiwch â gwneud tybiaethau am y rhieni, y plentyn/plant neu'r teulu yn gyffredinol.

Byddwch yn gredadwy

Mae'n bwysig ymateb ar sail gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn hytrach na barnu, fel bod teuluoedd yn cael yr wybodaeth fwyaf cywir. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymateb ar sail gwybodaeth yn hytrach nag emosiwn. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i chi gael rhywfaint o ddealltwriaeth o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud ag oedolion sy'n cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol – gweler Pennod 4.

Byddwch yn uniongyrchol ac yn onest

Mae cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn drosedd ddifrifol. Mae'n bosibl na fyddwch yn gwybod y manylion ar hyn o bryd, felly mae'n bwysig peidio â dyfalu neu ragdybio. Pan fyddwch yn siarad â'r teulu, byddwch yn onest ynglŷn â beth rydych yn ei wybod a byddwch yn glir ynglŷn â beth nad ydych yn ei wybod. Byddai'n werth gofyn i'r heddlu egluro wrth y teulu beth yw gwahanol gamau eu hymchwiliad a faint o amser y mae pob cam yn debygol o'i gymryd.

Byddwch yn glir ein bod yn siarad yn y sefyllfa hon am gam-drin plentyn neu blant yn rhywiol. Mae cam-drin rhywiol yn ffynnu â chyfrinachedd; gallai peidio â siarad yn uniongyrchol ac yn agored amdano gynyddu teimladau teuluoedd o gyfrifoldeb, dicter, gofid a dryswch, yn ogystal â lleihau eu diogelwch. Yn bennaf oll, mae teuluoedd yn gwerthfawrogi clywed gweithwyr proffesiynol yn dweud beth maen nhw'n mynd i'w wneud ac yn dangos eu bod wedi cadw at eu gair.

Byddwch yn gysurlon ac yn drugarog

Mae hyn yn golygu cydnabod teimladau pawb yn y teulu, gan gynnwys y rhiant sydd wedi troseddu, cynnig cefnogaeth emosiynol a dangos empathi yn eich rhyngweithiadau â nhw. Bydd dull tosturiol ac empathetig hefyd yn eich helpu i ddatblygu perthnasoedd gwaith mwy effeithiol â'r teulu cyfan.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn hawdd i'ch deall

Peidiwch â defnyddio termau technegol ac acronymau. Cadwch negeseuon yn fyr ac yn glir. Cofiwch ei bod yn debygol nad yw'r teulu erioed wedi bod mewn sefyllfa fel hyn o'r blaen, a'i bod yn bosibl nad ydynt yn gwybod beth yw eich rôl broffesiynol chi: gall treulio ychydig o amser yn egluro pwy ydych chi a beth yw eich rôl helpu i leihau eu dryswch a'u hofn. Efallai hefyd y byddai'n werth anfon cofnod ysgrifenedig at bob aelod o'r teulu ar ôl i chi eu cyfarfod, yn nodi beth rydych wedi ei ddweud wrthynt ac yn eu hatgoffa am bethau y mae angen iddynt eu gwneud. Maent yn debygol o fod mewn sioc, ac efallai y bydd hi'n anodd iddynt gofio pethau rydych yn eu dweud wrthynt.

Gall hefyd fod yn ddefnyddiol rhoi gwybodaeth mewn fformatau gwahanol. Er enghraifft, os yw holl ddyfeisiau electronig y teulu wedi'u hatafaelu, mae'n debygol y bydd angen copïau papur o wybodaeth arnynt yn hytrach na manylion gwefannau neu gyfeiriadau e-bost.

Mae gan y **Grŵp Hawliau Teuluoedd** lawer o wybodaeth ddefnyddiol i rieni – gan gynnwys **awgrymiadau ar gyfer gweithio gyda gweithiwr cymdeithasol**, a allai fod yn werth eu darllen – ac mae'n cynnig gwasanaeth cynghori i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Byddwch yn ymatebol

Mae'n bosibl y bydd adegau allweddol yn ystod unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu pan fydd y risgiau i aelodau o'r teulu yn fwy. Mae'n bwysig ystyried effaith datblygiadau allweddol yn yr ymchwiliad ar iechyd meddwl a lles emosiynol y rhiant nad yw wedi troseddu a'r plentyn/plant. Mae angen i chi gydnabod hefyd bod y risg y bydd y rhiant sy'n troseddu yn ceisio diweddu ei hun yn uwch ar adeg arestio, cyhuddo, mechnïaeth, treial, euogfarnu a dedfrydu; byddwch yn ymatebol i hyn a gwnewch yn siŵr bod y rhiant sydd wedi troseddu yn cael mynediad at wasanaethau cefnogi.

Rhannwch wybodaeth

Efallai nad oes gan y teulu unrhyw syniad beth sy'n mynd i ddigwydd, a gall hyn fod yn frawychus i bawb ohonynt. Mae'n hanfodol eu bod yn cael gwybodaeth bwysig ynglŷn â ble gallant fynd i gael mwy o gefnogaeth cyn gynted ag y bo modd. Er enghraifft, efallai y bydd ar y rhiant nad yw wedi cam-drin angen cefnogaeth ymarferol ac emosiynol.

Rhannwch neges o obaith

Mae'n bwysig rhoi rhywfaint o sicrwydd i deuluoedd. Er nad oes modd newid yr hyn sydd wedi digwydd, gall y gofid y maent yn ei brofi – â'r gefnogaeth iawn – leihau dros gyfnod.

Gadewch i'r teulu wybod i ble y gallant fynd i gael rhagor o gefnogaeth a gwybodaeth

Mae Pennod 13 yn cynnwys rhestr fanwl o adnoddau i deuluoedd yn y sefyllfa hon, a sefydliadau sy'n cynnig cefnogaeth. Efallai hefyd y byddech yn hoffi rhannu'r crynodeb isod o sefydliadau y gellir cysylltu â hwy ag aelodau o'r teulu:

Manylion cysylltu defnyddiol i deuluoedd

I blant

Mae **Children Heard and Seen** yn cefnogi plant a theuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan garcharu rhiant. **www.childrenheardandseen.co.uk**

Gall plant gysylltu â **Childline** ar 0800 111 gael cyngor di-dâl a chyfrinachol, neu fynd i **www.childline.org.uk**

I'r rhiant nad yw wedi troseddu

Mae **Talking Forward** yn ariannu cefnogaeth gan gymheiriaid i unrhyw un sydd mewn sefyllfa lle mae oedolyn yn y teulu wedi bod yn destun ymchwiliad mewn cysylltiad â throsedd rywiol ar-lein. **www.talkingforward.co.uk**

Mae **The Lucy Faithfull Foundation** wyn gweithio gydag unrhyw un sydd wedi cael ei effeithio gan droseddau Ryngrwyd. Mae'r Fforwm Ffrindiau a Theulu Stop It Now! yn fforwm ar-lein lle gall partneriaid, perthnasau a ffrindiau pobl sydd wedi bod yn cael mynediad at ddelweddau rhywiol o blant, neu'n ymgysylltu ag ymddygiadau rhywiol amhriodol yn ymwneud â phlant, rannu eu profiadau, meddyliau a gwybodaeth yn ddienw â phobl eraill sydd mewn sefyllfaoedd tebyg **https://get-help.stopitnow.org.uk** Gall aelodau o'r teulu a ffrindiau sy'n cael trafferth ag effeithiau emosiynol ac ymarferol troseddau Rhyngrwyd hefyd gael mynediad at y rhaglen Inform, sy'n cynnwys sesiynau grŵp lle gallant ddod â'u cwestiynau a'u pryderon a'u harchwilio mewn amgylchedd cefnogol. **www.lucyfaithfull.org.uk/inform.htm**

I'r rhiant sydd wedi troseddu

Mae gan **StopSO** rhwydwaith annibynnol ledled y DU o weithwyr proffesiynol profiadol â chymwys, sydd wedi'u hyfforddi i weithio gyda phobi sydd wedi cyflawni trosedd rywiol neu sydd mewn perygl o gyflawni trosedd rywiol. **https://stopso.org.uk**

Mae rhaglenni Inform Plus ac Engage Plus **The Lucy Faithfull Foundation** yn cynnig cefnogaeth i bobl sydd wedi cael eu harestio, wedi cael rhybudd neu wedi cael euogfarn am droseddau Rhyngrwyd yn cynnwys delweddau rhywiol o blant neu gyfathrebu rhywiol â phlant, i'w helpu i stopio eu hymddygiad. **www.lucyfaithfull.org.uk/help-to-stop-offending-online.htm**

Mae **Safer Lives** yn darparu cefnogaeth arbenigol a chyfrinachol i bobl sy'n destun ymchwiliad gan yr heddlu am droseddau rhywiol ar-lein. **www.saferlives.com**

I'r teulu cyfan

Mae'r **Samaritans** ar gael i bawb, beth bynnag maen nhw'n mynd drwyddo. Mae eu cymorth yn gyfrinachol ac ar gael 24 awr y diwrnod, 365 diwrnod y flwyddyn. Gallwch alw am ddim ar 116 123 neu fynd i **www.samaritans.org** i gael mwy o wybodaeth.

Gall teuluoedd gael cyngor ymarferol ar nifer o wahanol faterion drwy fynd i **www.citizensadvice.org.uk** i gysylltu â **Cyngor Ar Bopeth**.

Cefnogi'r plentyn/plant yn y teulu

9.

Mae'r bennod hon yn disgrifio beth y gallwch ei wneud i gefnogi'r plentyn/plant yn y teulu pan mae rhiant yn destun ymchwiliad gan yr heddlu oherwydd ei fod wedi cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol. Mae yna ffyrdd hefyd o helpu'r rhiant nad yw wedi cam-drin i gefnogi ei blentyn/plant – mae'r rhain yn cael eu trafod ym Mhennod 10.

Lliniaru effaith gweld rhiant yn cael ei arestio

Lle bynnag y bo modd, ni ddylai plant fod yn bresennol pan fydd eu rhiant yn cael ei arestio – ond mae adegau pan na ellir osgoi hyn. Yn y sefyllfaoedd hyn, gellir lleihau'r effeithiau ar y plentyn/plant drwy sicrhau bod rhywun ar gael i eistedd gyda nhw ac egluro, yn y ffordd fwyaf priodol i'w hoedran a'u cam datblygu, beth sy'n digwydd.

Peidiwch â chynhyrfu a cheisiwch gynnig sicrwydd

Gall y plentyn/plant brofi emosiynau amrywiol – tristwch, ofn, dicter, digalondid, dryswch, anghrediniaeth, diffyg teimlad neu orbryder – wrth iddynt geisio gwneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd yn eu cartref ac i'w teulu. Gall pob plentyn ymateb yn wahanol, felly gadewch i'r plentyn wybod bod pob emosiwn yn ddilys.

Byddwch yn onest

Mae'n bwysig bod yn onest ynglŷn â beth mae'r rhiant sydd wedi troseddu wedi ei wneud, a beth allai ddigwydd iddo. Os nad ydych yn dweud wrth y plentyn/plant, mewn ffordd briodol, maent yn debygol o ddychmygu senarios posibl a allai fod yn waeth na'r realiti. Efallai y byddai'n werth cytuno ar naratif gyda'r rhiant nad yw wedi troseddu, sydd mor agos ag sy'n bosibl at fod yn ddarlun gwir, ond heb fod yn rhy drawmatig.

Efallai y bydd y plentyn/plant yn gofyn cwestiynau uniongyrchol i chi; dro arall, efallai y byddant wedi dychryn gormod neu'n rhy ddryslyd i ofyn dim i chi. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn dweud celwydd wrthynt nac yn dweud pethau nad ydynt yn wir.

Bydd yr hyn rydych yn ei ddweud wrthynt, wrth gwrs, yn dibynnu llawer iawn ar oedran, cam datblygu ac anghenion pob plentyn; ni fydd gwybodaeth yn ddefnyddiol i blentyn nad yw'n gallu ei deall a'i phrosesu.

I gael cyngor ynglŷn â faint o wybodaeth i'w rhoi i'r plentyn, gallwch ffonio llinell gymorth Stop It Now! ar 0808 1000 900.

Mae rhai o'r cwestiynau a allai gael eu gofyn i chi yn cael eu disgrifio yma, ynghyd ag ystyriaethau ar gyfer ymatebion.

- **"Be sy'n digwydd" neu "be ydych chi'n ei wneud yma"?**

  Bydd eich ymatebion wrth gwrs yn dibynnu ar oed a cham datblygu'r plentyn, ond os yw plentyn yn gofyn i chi ddweud wrtho beth sy'n digwydd mae'n bwysig rhoi ymateb iddo. Er enghraifft, gallech ddweud rhywbeth fel "Mae'r heddlu'n poeni am rai o'r pethau mae dy dad wedi bod yn edrych arnyn nhw ar y rhyngrwyd. Mae angen iddyn nhw gael golwg ar bopeth sy'n gallu cysylltu â'r Rhyngrwyd er mwyn cael gwybod mwy."

  Bydd ar y plant/plentyn eisiau gwybod pwy ydych chi a beth rydych yn ei wneud yn eu cartref. Cofiwch ei bod yn bosibl nad ydynt erioed wedi clywed am weithiwr cymdeithasol o'r blaen, felly cymerwch amser i egluro eich rôl yn glir.

- **“Be sy’n mynd i ddigwydd i dad?”**

  Efallai y bydd rhywun wedi dweud wrth y plentyn/plant, os ydyn nhw’n ‘ddrwg’, y bydd yr heddlu’n dod – ac efallai y byddant wedi clywed am bobl yn gorfod mynd i’r carchar. Mae hyn yn debygol o fod yn frawychus iawn iddyn nhw. Mae yn bosibl y bydd y rhiant yn cael ei gymryd ymaith, ar gyfer cwestiynu cychwynnol o leiaf, a bydd angen i chi fod yn onest ynglŷn â hyn.

  Yn ddelfrydol, byddwch wedi cael cyfle i siarad â’r heddlu cyn mynd i gartref y teulu, felly bydd gennych ryw syniad faint o wybodaeth sydd ganddynt, beth maen nhw’n bwriadu ei wneud, ac a oes unrhyw amodau mechnïaeth yn debygol o gael eu gosod. Gallech ddweud rhywbeth fel hyn wrth y plentyn/plant, “Bydd angen i’r heddlu siarad gyda dy dad yng ngorsaf yr heddlu.” Gadewch iddyn nhw wybod gyda phwy y gallan nhw siarad os oes ganddyn nhw gwestiynau, a gwnewch yn siŵr eu bod yn cael eu diweddaru ynglŷn â’r sefyllfa.

- **“Pam mae’r heddlu’n mynd â fy ffôn i?” neu “Pryd fydda i’n cael fy mhethau yn ôl?”**

  Mae eitemau fel ffonau symudol, consolau gemau neu gyfrifiaduron yn bwysig iawn i lawer o blant, ac mae’n bwysig peidio ag amcan yn rhy isel sut y bydd y plentyn yn teimlo pan fydd y rhain yn cael eu cymryd o gartref y teulu.

  Gadewch i’r plentyn/plant wybod nad nhw yw’r rhai sydd mewn helynt, ond bod angen i bob dyfais gael ei gwirio gan yr heddlu. Dywedwch wrthyn nhw y byddwch yn siarad â’r heddwas sydd yng ngofal yr achos cyn gynted ag y bo modd, er mwyn canfod am faint y mae’r heddlu’n debygol o fod angen cadw pethau’r teulu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gweithredu yn dilyn hynny, a’ch bod yn dal i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r plentyn/plant.

Gwahanwch yr unigolyn oddi wrth ei ymddygiad

Mae’n bwysig peidio â rhagdybio sut y bydd y plentyn/plant yn teimlo ynglŷn â’r rhiant sydd wedi troseddu. Gallai oedolion sy’n cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol fod yn rhieni da fel arall, a bod gan eu plentyn/plant berthynas gadarnhaol â nhw. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn rhoi negeseuon i’r plentyn/plant bod eu rhiant yn ‘ddrwg’.

Cynlluniwch eich ymyriadau yn briodol ac mewn ffordd sy’n adlewyrchu ymarfer da

Mae’n bosibl bod tuedd i gymryd bod plant, yn enwedig plant hŷn, yn gallu amddiffyn eu hunain; yn anffodus, gall hyn arwain at roi disgwyliadau afrealistig arnynt i gadw eu hunain yn ddiogel rhag cael eu cam-drin.

Os oes risgiau wedi’u nodi i’r plentyn/plant yn y teulu, ni ddylai’r rhiant sydd wedi troseddu fod yn cael cyswllt heb oruchwyliaeth gyda’r plant, nac yn byw gyda nhw.

Os nad oes risgiau wedi’u nodi, gall y rhiant sydd wedi troseddu benderfynu ei fod am ddal i fyw adref. Yn y sefyllfa honno:

- mae angen i’r oedolion sydd o gwmpas y plentyn/plant barhau’n effro i unrhyw arwyddion bod rhywbeth ddim yn iawn i’r plentyn/plant
- mae angen rhoi lle i’r plentyn/plant siarad am rywbeth a allai fod yn eu poeni
- ni ddylid rhoi negeseuon i’r plentyn/plant sy’n awgrymu eu bod yn gyfrifol am gadw eu hunain yn ddiogel.

Heb hyn, gallai gwneud ‘gwaith cadw’n ddiogel’ (er enghraifft, addysgu ynglŷn â beth yw cyffyrddiad da a drwg) fod yn niweidiol i’r plentyn/plant.

Byddwch yn gyson a chynigiwch gefnogaeth barhaus

Ar ôl i'r rhiant sydd wedi troseddu gael ei arestio, mae'r plentyn/plant yn y teulu yn debygol o wynebu cyfnod o ddryswch ac ansicrwydd. Gall ymchwiliadau troseddol fod yn hir, a bydd angen i'r plentyn/plant gael lle i ofyn cwestiynau, yn ogystal â chymorth i weithio'u ffordd drwy gyfnod a all fod yn un hir.

Mae'n debygol y bydd nifer o gymhlethdodau ac ansicrwydd rhwng arestiad cychwynnol y rhiant a diwedd yr achos troseddol. Mae'n bosibl na fydd y mater yn mynd ymlaen i gyhuddiad gan nad yw'n cyrraedd trothwy penodol, neu mae'n bosibl y bydd rhagor o droseddau'n cael eu darganfod yn ystod archwiliad fforensig o gyfrifiadur a ffôn y rhiant sydd wedi troseddu. Efallai y bydd y rhiant nad yw wedi troseddu yn penderfynu ei fod yn dymuno dod â'r berthynas i ben; efallai y bydd arno eisiau i'r cyswllt ddod i ben, neu i'r cyswllt ddigwydd dan oruchwyliaeth. Gallai canlyniadau'r penderfyniadau hynny arwain at achos cyfraith breifat, a dod yn rhan o gylch gorchwyl y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) yn ogystal â gwasanaethau plant. Neu, efallai y byddai'r rhiant nad yw wedi troseddu yn dymuno parhau â'i berthynas gyda'i bartner.

I gael mwy o wybodaeth am y llys teulu, ewch i wefan **Cafcass**.

Dylai eich ymarfer adlewyrchu dealltwriaeth o'r niwed y mae plant yn yr amgylchiadau hyn yn ei brofi yn aml, beth bynnag yw'r canlyniad yn y pen draw. Mae'n bwysig galluogi'r plentyn/plant i fynegi eu barn a'u dymuniadau, gan ystyried eu hoedran a'u dealltwriaeth, ac i ofyn am gefnogaeth therapiwtig beth bynnag yw canlyniad unrhyw lys troseddol neu lys teulu.

Os bydd y rhiant sydd wedi troseddu yn cael dedfryd o garchar, efallai y byddech yn hoffi rhoi manylion **Children Heard and Seen**, i'r rhieni. Maent yn cefnogi plant a theuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan garcharu rhiant.

O ran cyswllt rhwng y rhiant sydd wedi troseddu a'r plant/plentyn yn y teulu, bydd angen i chi bennu paramedrau sy'n ystyried risgiau amlwg a bwriadau'r rhiant sydd wedi troseddu. Os nad oes pryderon bod y rhiant sydd wedi troseddu yn achosi risg uniongyrchol i'w blentyn/plant, ac os yw'r plentyn/plant eisiau cael cyswllt â'r rhiant hwnnw, gellir gwneud darpariaeth iddynt gynnal perthynas yn ystod yr ymchwiliad troseddol. Bydd angen asesu risg y cyswllt hwn, ac mae'n bosib y bydd angen iddo fod dan oruchwyliaeth: efallai y bydd y rhiant nad yw wedi troseddu yn dymuno ymgymryd â'r rôl hon, ond nid o reidrwydd, a gallai aelodau eraill o'r teulu, sydd wedi cael briff addas, ddarparu'r oruchwyliaeth honno. Dylid defnyddio canolfannau cyswllt fel dewis olaf yn unig.

Yn y tymor hwy, â'r mater troseddol wedi'i ddatrys a mwy o ddealltwriaeth o'r risg wedi'i chael, gellir ystyried unrhyw newid i gyfansoddiad y teulu – gan ddibynnu ar farn a bwriadau'r rhieni a'r plentyn/plant. Os yw'r rhieni'n mynd i barhau ar wahân (oherwydd bod un ohonynt, neu'r ddau ohonynt, yn dymuno hynny, neu oherwydd Gorchymyn a wnaethpwyd gan y Llys Teulu), bydd ystyriaethau eraill yn dilyn.

10.

Cefnogi'r rhiant nad yw wedi troseddu

Mae'r bennod hon yn disgrifio camau cefnogol y gallwch eu cymryd gyda'r rhiant nad yw wedi troseddu, gan gynnwys camau i'w helpu i gefnogi ei blentyn/plant.

I gael gwybodaeth a chanllawiau ar gefnogi rhieni a gofalwyr y mae eu plant wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, gweler **Canllaw Cefnogi Rhieni a Gofalwyr** y Ganolfan CPRh.

Rhannwch wybodaeth yn onest a gwnewch yn siŵr eu bod wedi ei deall

Yn aml iawn mae gan wahanol asiantaethau farn wahanol ynglŷn â'r wybodaeth y dylid ei rhoi i'r rhiant nad yw wedi troseddu, yn enwedig yn ystod ymchwiliad gan yr heddlu. Er enghraifft, efallai y bydd yr heddlu'n teimlo nad yw'n briodol rhannu gwybodaeth oherwydd y gallai hyn effeithio ar ymchwiliad troseddol, tra bydd gofal cymdeithasol plant yn teimlo ei bod yn bwysig ei rhannu fel bod y rhiant nad yw wedi troseddu'n cael yr holl wybodaeth y mae arno ei hangen er mwyn diogelu ei blentyn/plant yn briodol. Dylai diogelu fod yn ganolog i'ch ymyriad, felly mae'n bwysig dod i gytundeb ag asiantaethau eraill sydd â diogelwch yn greiddiol iddynt.

Cofiwch y bydd rhai pobl, ar ôl cael clywed gwybodaeth fanwl, yn dweud yn ddiweddarach na chawsant wybod hynny. Os bydd y rhiant nad yw wedi troseddu yn gwneud hyn, ni ddylech beidio â'i gredu ar unwaith; ystyriwch a yw'n bosibl ei fod wedi datgysylltu ei hun oddi wrth y manylion (h.y. mewn ymateb i drawma) ac o ganlyniad ei fod wedi methu â phrosesu'r manylion neu eu galw i gof yn nes ymlaen. Efallai y bydd angen ailddweud yr wybodaeth wrthynt yn sensitif dros gyfnod, er mwyn iddynt allu cymryd popeth i mewn. Er hyn, mae'n bwysig ystyried faint o fanylion y mae angen iddynt eu gwybod mewn gwirionedd.

Os nad yw'n ymddangos bod y rhiant nad yw'n cam-drin yn deall difrifoldeb y sefyllfa, ceisiwch beidio â theimlo'n rhy rwystredig – a gwrthodwch unrhyw demtasiwn i 'roi mwy o fanylion' mewn ymdrech i 'wneud iddynt' ddeall. Yn aml iawn mae hyn yn cael effaith hollol wahanol, ac yn achosi iddynt gau i lawr a datgysylltu oddi wrth y boen o glywed yr wybodaeth.

Yn yr un modd, mae'n anodd iawn i riant amddiffyn ei blentyn rhag risg nad yw'n ei deall. Ni ellir disgwyl i rieni amddiffyn heb y ddealltwriaeth angenrheidiol o'r hyn y maen nhw'n amddiffyn eu plant rhagddo.

Helpwch nhw i brosesu'r hyn sydd wedi digwydd

Fel y nodwyd ym Mhennod 2, mae clywed y gallai partner fod wedi cael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn drawma mawr iawn – mae hynny'n wir hefyd am y cysylltiad dilynol â'r system gyfiawnder troseddol a gwasanaethau plant. Mae'n bwysig eich bod yn ceisio sylweddoli beth yw'r rhesymau dros ymateb y rhiant nad yw wedi cam-drin, beth bynnag yw'r ymateb hwnnw, ac yn cofio bod ei ymddygiad mae'n debyg yn ymateb i'w drawma yn hytrach nag ymddygiad sydd wedi'i anelu atoch chi.

Os yw'r rhiant nad yw wedi cam-drin plant yn gwadu bod ei bartner wedi gwneud unrhyw beth o'i le, nid yw ei atgoffa dro ar ôl tro ynglŷn â'r hyn sydd wedi digwydd yn debygol o fod yn fuddiol. Yn yr un modd, os bydd yn symud o sefyllfa lle mae'n gwadu i un lle mae'n derbyn, ni ddylech ddehongli hyn fel tystiolaeth o ffugio cydymffurfio; mae'n debygol o fod yn arddangos newid go iawn. Gall rhieni gymryd amser i ddod i delerau â'r hyn sydd wedi digwydd.

Efallai y byddech yn hoffi darllen **Canllaw Cefnogi Rhieni a Gofalwyr** y Ganolfan CPRh i ddysgu mwy ynglŷn ag ymatebion cyffredin rhieni a gofalwyr pan fyddant yn dod i wybod bod eu plant wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.

Mae darparu gwybodaeth glir, hawdd ei deall i'r rhiant nad yw wedi cam-drin, a rhoi amser iddo ef/hi brosesu hyn, yn ffordd gadarnhaol o'i helpu i gydnabod beth sydd wedi digwydd.

Mewn llawer o achosion, bydd y rhiant nad yw wedi cam-drin yn dewis aros mewn perthynas gyda'i bartner. Mae nifer o resymau pam y maent yn penderfynu gwneud hyn, gan gynnwys y canlynol:

- Efallai y bydd yn teimlo ei fod yn gallu deall yn iawn beth yw'r risgiau y mae ei bartner yn eu hachosi ac yn teimlo'n hyderus y gall eu rheoli. Mae gweithio gyda'r rhiant nad yw wedi troseddu yn bwysig iawn er mwyn gallu gwneud asesiad cywir o'i allu a'i gapasiti i amddiffyn ei blentyn.

- Efallai y bydd yn teimlo nad yw'n gallu ymdopi heb ei bartner, ac y bydd yn poeni sut y bydd yn delio â bywyd o ddydd i ddydd heb ei gefnogaeth. Os hynny, bydd arnoch eisiau meddwl pa gefnogaeth ymarferol y mae'n bosibl y bydd arno ef/hi ei hangen, a sut y gallwch ei helpu i gael mynediad ati; er enghraifft, efallai y byddai'n werth ei helpu i gysylltu â **Cyngor Ar Bopeth** yn y lle cyntaf.

- Os yw'r rhiant sydd wedi troseddu wedi cyflawni cam-drin domestig, gall y sefyllfa'n fwy cymhleth. Gallai dioddefwr cam-drin domestig – a'i blentyn/plant – wynebu mwy o risg o niwed os bydd yn penderfynu dod â'i berthynas i ben; efallai y bydd yn teimlo y gall amddiffyn ei hun a'r plentyn/plant yn well drwy aros yn y cartref. Yn ychwanegol at hyn, mae'n bosibl y bydd y rhiant sydd wedi troseddu wedi mynd ati yn fwriadol i leihau unrhyw gyfleoedd i weithredu fel rhan o'r gam-driniaeth – er enghraifft, drwy gyfyngu ei fynediad at adnoddau neu gysylltiadau megis teulu a ffrindiau. Yn y sefyllfa hon dylech ymgynghori â gweithwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn gweithio gyda phobl sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig a/neu reolaeth drwy orfodaeth – er enghraifft, gallwch gysylltu â'r **Llinell Gymorth Genedlaethol Cam-drin Domestig**. Mae **Canllawiau Statudol ar Gam-drin Domestig** y Swyddfa Gartref yn rhestru ffynonellau cefnogaeth a chanllawiau eraill.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gallai'r rhiant nad yw wedi troseddu deimlo bod ei bartner yn rhiant da mewn ffyrdd eraill (hynny yw, nid oes arwyddion neu ddangosyddion cam-drin rhywiol na risg uniongyrchol i'r plentyn) ac efallai y bydd yn teimlo ei bod yn bwysig cadw'r teulu cyfan gyda'i gilydd. Gallai hwn fod yn benderfyniad sydd wedi'i ystyried yn ofalus. Os yw eich asesiad yn cefnogi'r farn hon, bydd yn bwysig helpu'r rhiant nad yw wedi troseddu i feddwl beth y bydd angen ei wneud er mwyn i'r teulu allu ailadeiladu ei berthnasoedd.

Mewn rhai sefyllfaoedd ni fydd y rhiant nad yw wedi troseddu yn credu'r hyn sydd wedi digwydd. Efallai y byddai'n werth iddo wybod bod y rhan fwyaf o ymchwiliadau'r heddlu i gael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn cychwyn ar ôl cael gwybodaeth dechnegol gan ddarparwyr gwasanaeth: bydd adroddiad, dyweder, yn dweud bod delwedd anweddus wedi'i llwytho i lawr mewn cyfeiriad penodol yn cael ei gadarnhau gan ffynhonnell ddibynadwy o safbwynt technegol, felly pwrpas ymchwiliad yr heddlu yw *deall amgylchiadau'r* drosedd yn hytrach na chadarnhau ei bod wedi digwydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, felly, nid oes tebygolrwydd o gamadnabod na gwall dynol arall.

Helpwch nhw i feddwl wrth bwy y bydd arnynt eisiau dweud

Mae'r rhiant nad yw wedi troseddu yn debygol o boeni ynglŷn â phwy fydd yn dod i wybod beth mae ei bartner wedi ei wneud, ac efallai y bydd yn poeni am sgil-effeithiau. Weithiau, yn anffodus, mae rhieni nad ydynt wedi troseddu yn cael eu cynghori i beidio â dweud wrth neb beth sydd wedi digwydd, neu maent yn penderfynu peidio â dweud wrth neb; gall hyn arwain at deimladau o unigrwydd, dryswch ac ofn.

Os byddent yn hoffi siarad â rhywun, ond eu bod yn teimlo'n ansicr ynglŷn â siarad â rhywun maen nhw'n ei adnabod, gallant ddewis defnyddio gwasanaethau lle gallant ymgysylltu â phobl eraill sydd mewn sefyllfa debyg. Un enghraifft yw'r **Fforwm Ffrindiau a Theuluoedd** sy'n cael ei hwyluso gan The Lucy Faithfull Foundation – lle i deulu a ffrindiau pobl sydd wedi bod yn edrych ar ddelweddau rhywiol o blant neu'n cyfathrebu'n rhywiol â phlentyn ar-lein. Yma gall rhieni nad ydynt wedi troseddu gael cefnogaeth gan bobl eraill sydd mewn sefyllfaoedd tebyg, drwy rannu profiadau, meddyliau a gwybodaeth yn ddienw.

Os byddai'n well ganddynt ymuno â grŵp a pheidio â bod yn ddienw, gallant gysylltu â **Talking Forward**, neu **raglen Inform The Lucy Faithfull Foundation**

Helpwch nhw i reoli bywyd teuluol yn ystod ymchwiliad yr heddlu

Bydd cefnogi teuluoedd drwy ymchwiliad yr heddlu, a'u helpu i ganfod eu ffordd drwy'r broses cyfiawnder troseddol, yn fuddiol iawn, yn enwedig gan fod y prosesau hyn yn gallu bod yn hir iawn. Mae heddluoedd Cymru wedi datblygu'r **Helpful Family Pack**, sydd wedi'i gynllunio i'w rannu â rhieni nad ydynt wedi troseddu er mwyn iddynt allu deall y broses cyfiawnder troseddol yn well.

Mae nifer o adnoddau sy'n cynnig cyngor ac arweiniad i rieni ar gefnogi eu plant a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth rywiol. Efallai y byddech yn hoffi sôn wrth y rhieni nad ydynt wedi troseddu am wefan **Parents Protect**, er enghraifft.

Helpwch nhw i ystyried beth i'w ddweud wrth eu plentyn/plant

Un o'r cwestiynau y mae'r rhiant nad yw wedi cam-drin yn debygol o'i ofyn i chi yw *"Beth ddylwn i ei ddweud wrth fy mhlentyn/mhlant?"*. Yn gyffredinol, bydd ar y plentyn/plant angen digon o wybodaeth i'w helpu i wneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd, ond fel arfer ni fydd angen gwybodaeth fanwl, ac ni fydd hynny o fudd.

Er enghraifft, efallai y byddai'n werth dweud rhywbeth fel hyn, *"Mae'r heddlu yn poeni am rai o'r pethau mae Dad wedi bod yn edrych arnyn nhw ar y Rhyngrwyd,"* ond dim mwy na hynny. Mae angen i negeseuon fod yn briodol i oedran a lefel ddealltwriaeth y plentyn; mae ymatebion cymesur yn fwy tebygol o alluogi'r plentyn i deimlo y gall ofyn cwestiynau a siarad am rywbeth a allai fod yn digwydd iddo.

Efallai y byddai'n werth rhoi'r cyngor a ganlyn i'r rhiant.

Rhannu gwybodaeth gyda'ch plentyn

Rhowch ddigon o le ac amser i'ch plentyn brosesu'r wybodaeth, a chyfleoedd i siarad â chi amdani – yn rheolaidd, ac nid dim ond ar y pryd.

Rhannwch wybodaeth mewn ffordd sy'n briodol i gam datblygu eich plentyn. Does dim angen rhoi manylion diangen i blant – y cyfan y mae arnynt ei angen yw digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall beth sydd wedi digwydd.

Gadewch i'ch plentyn wybod pa bobl eraill sy'n gwybod beth mae ei riant wedi ei wneud, a beth mae'r bobl hynny'n ei wybod amdano.

Meddyliwch am yr iaith rydych yn ei defnyddio. Gall dweud wrth eich plentyn bod rhywun wedi gwneud rhywbeth drwg ac wedi mynd i'r carchar achosi iddo boeni y bydd ef/hi yn cael ei anfon i'r carchar os bydd yn ddrwg.

Os yw eich plentyn yn gwybod beth mae ei riant wedi ei wneud, ceisiwch ei helpu i wahanu'r unigolyn oddi wrth ei ymddygiad: yr hyn y mae wedi ei wneud oedd yn ddrwg, nid yr unigolyn cyfan.

Cadwch lygad ar eich plentyn rhag ofn y bydd ganddo fwy o gwestiynau neu y bydd arno eisiau sôn mwy ynglŷn â sut y mae'n teimlo.

Mae'r elusen **Children Heard and Seen** wedi cynhyrchu **taflen wybodaeth** yn cynnwys cyngor ynglŷn â sut i ddweud wrth blant bod eu rhiant wedi cael ei garcharu. Er na fydd hyn yn berthnasol i lawer o'r teuluoedd rydych yn eu cefnogi, mae'r daflen yn cynnwys ystyriaethau defnyddiol.

11.

Cefnogi'r rhiant sydd wedi troseddu

Er mwyn helpu'r teulu cyfan i reoli risgiau a thrawma ymddygiad y rhiant sydd wedi troseddu, bydd angen i chi feddwl sut y gallwch gefnogi'r rhiant sydd wedi troseddu.

Mae dynion sydd ar fechnïaeth am fod â deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn eu meddiant yn wynebu risg uchel iawn o hunanladdiad, fel yr eglurwyd ym Mhennod 3. Mae hunanladdiad rhiant yn brofiad trawmatig iawn i blant, felly mae ystyried sut y gallwch helpu i liniaru'r risg y bydd y rhiant sydd wedi troseddu yn diweddu ei hun yn allweddol er mwyn diogelu ei blentyn/plant.

Un o'r pethau cyntaf y gallwch ei wneud yw rhoi manylion gwasanaethau cefnogi i'r rhiant sydd wedi troseddu. Mae nifer o wasanaethau ar gael (gweler Pennod 13); yn ogystal ag achub bywyd o bosibl, gallant helpu'r rhiant i ddod i ddeall beth mae wedi ei wneud, gan obeithio y bydd hynny'n sicrhau nad yw'n troseddu eto.

Mae gweddill y bennod hon yn egluro sut, wrth weithio gyda'r rhiant sydd wedi troseddu, y gallwch reoli unrhyw deimladau negyddol sydd gennych tuag ato ef/hi.

Gwahanwch y gweithredoedd oddi wrth yr unigolyn a pheidiwch â barnu

Un o brif ddangosyddion risg o hunanladdiad ymhlith dynion sy'n cael eu harestio am gael mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yw ***cywilydd***. Wrth i chi ryngweithio â'r rhiant sydd wedi troseddu, mae'n bwysig peidio â rhoi'r argraff eich bod yn ei farnu ef *fel unigolyn* (yn hytrach na'r drosedd).

Rhywbeth i feddwl amdano

Meddyliwch am funud sut rydych yn teimlo ynglŷn â gweithio gyda dynion sy'n cam-drin plant yn rhywiol. A yw eich teimladau'n wahanol os ydynt wedi edrych ar ddelweddau rhywiol o blant neu os ydynt wedi achosi niwed corfforol i blentyn? A yw eich teimladau'n amrywio gan ddibynnu ar oed y plentyn/plant sydd wedi cael eu niweidio?

Efallai y byddwch yn profi ystod eang o emosiynau wrth wynebu oedolyn gwrywaidd sydd wedi cam-drin plentyn yn rhywiol, ac mae'n bwysig eich bod yn treulio ychydig o amser yn meddwl sut y gallai'r emosiynau hyn effeithio ar eich gwaith. Er enghraifft, a ydych yn rhagdybio yn awtomatig bod risg y bydd dyn sydd wedi edrych ar ddelweddau rhywiol o blant yn cam-drin ei blentyn ei hun yn rhywiol?

Mae'n bwysig bod eich gwaith yn dod o safbwynt sy'n seiliedig ar dystiolaeth, felly efallai y byddech yn hoffi ailedrych ar Ran B yr adnodd hwn. Efallai y byddai'n werth i chi siarad am eich teimladau mewn sesiynau goruchwylio, ac mae Pennod 12 yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y gallwch ofalu am eich lles eich hun wrth weithio yn y maes hwn.

Peidiwch â gwneud rhagdybiaethau

Yng nghamau cynnar proses statudol neu droseddol, efallai y bydd y rhiant sydd wedi troseddu yn mynegi barn sy'n awgrymu nad oes ganddo empathi neu nad yw'n deall beth mae wedi ei wneud wrth droseddu. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod risg y bydd yn aildroseddu. Mae nifer o resymau posibl pam nad yw'n gwbl onest â chi am y delweddau y mae wedi bod yn edrych arnynt, yn enwedig yn y camau cynnar ar ôl arestio'r unigolyn. I ryw raddau mae rhyw gymaint o wadu yn ymateb naturiol, ac nid yw o reidrwydd yn golygu bod mwy o risg y bydd yr unigolyn yn edrych ar fwy o ddelweddau neu'n cam-drin plentyn yn rhywiol drwy gyswllt uniongyrchol.

Gall ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth helpu'r rhiant sydd wedi troseddu i reoli ei ymddygiad, gan roi rhywfaint o hyder iddo yn ei allu i ymatal rhag aildroseddu yn y dyfodol. Mae **StopSO** yn darparu ymyriadau hirdymor ar sail wirfoddol, ac mea Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn cynnig rhaglenni ymyrraeth ar gyfer troseddwyr yn y ddalfa a'r rhai sy'n destun dedfrydau cymunedol.

Rhan D. Diwallu eich anghenion eich hun

Mae'n bwysig gofalu amdanoch eich hun wrth weithio gyda theuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol. Dylai hyn gynnwys defnyddio eich sesiynau goruchwylio, ond efallai hefyd y byddech yn hoffi gofyn am gefnogaeth broffesiynol neu ddefnyddio adnoddau eraill i'ch cefnogi yn eich gwaith neu i'w rhannu gyda'r teulu.

12.

Gofalu am eich lles eich hun

Yr effaith arnoch chi

Gall helpu teuluoedd i ddygymod a gwella o effeithiau cam-drin rhywiol gael effaith seicolegol ac emosiynol arnoch chi fel gweithiwr cymdeithasol.

Gall yr effeithiau gynnwys:

- teimlo'n or-amddiffynnol tuag at blant yn eich bywyd
- methu â chysgu
- teimlo'n flin, yn rhwystredig neu'n siomedig
- cael anhawster i deimlo empathi
- profi delweddau ymwthiol neu atgofion parhaus o fanylion yn ymwneud â'r troseddu.

Mae cynnal eich lefelau egni, a'ch teimladau o hunan-werth a hunan-barch, yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallwch weithio'n effeithiol a gwarchod eich lles emosiynol.

Trawma mechnïol

Os nad ydych yn gofalu amdanoch chi eich hun pan fyddwch yn gweithio â deunydd annymunol sy'n peri gofid i chi, gall eich lles ddirywio, gan arwain mewn rhai sefyllfaoedd at drawma mechnïol (neu eilaidd). Mae pedwar peth pwysig i'w gwybod am drawma mechnïol:

- Nid yw profi trawma o unrhyw fath yn eich gwneud yn wan, ac nid yw'n golygu nad ydych yn gallu gwneud eich gwaith. Gall trawma mechnïol effeithio ar sawl agwedd ar eich bywyd ac mae'n bwysig cael cefnogaeth
- Mae'n amlygu ei hun yn wahanol ym mhob unigolyn.
- Gall ddigwydd o ganlyniad i gyswllt ag un achos, neu gall fod yn gronnus (â'r effaith yn dwysáu dros gyfnod ac â nifer o gleientiaid).
- Gall dreiddio i bob agwedd ar eich bywyd, gan gynnwys eich emosiynau, eich perthnasoedd a'r ffordd rydych yn gweld y byd.

Er nad ydych yn debygol o brofi trawma mechnïol, mae'n hawdd iawn teimlo lludded mawr *(burnout)*. Mae hwn yn gyflwr o flinder emosiynol, corfforol a meddyliol llwyr, a gall ddatblygu os yw unigolyn wedi bod dan straen am gyfnod hir. Mae'r unigolyn yn teimlo'n ddi-rym ac efallai y bydd yn meddwl nad oes dim y gall ei wneud ynglŷn â'i sefyllfa neu nad oes diben. Cydnabod y gall gweithio gyda phlant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol effeithio ar eich iechyd a'ch lles yw'r cam cyntaf pwysicaf er mwyn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

Mae'r **Pecyn Cymorth Trawma Mechnïol a Hunan-ofal** a gynhyrchwyd gan Strategaeth Tegwch Ieuenctid Toronto yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am atal trawma mechnïol.

Camau y gallwch eu cymryd

Yn y gwaith, mae'n bwysig:

- gofyn am gefnogaeth â'r problemau a'r heriau rydych yn eu hwynebu
- peidio â derbyn pwysau neu gyfrifoldebau ychwanegol.

Mae'n bosibl y bydd eich cyflogwr yn gallu rhoi cefnogaeth i chi, drwy oruchwyliaeth efallai, neu gefnogaeth gan gymheiriaid. Mae gan rai cyflogwyr gynlluniau lles gweithwyr sy'n gallu darparu mynediad at gwnsela.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes cam-drin ar wefan **Looking after yourself** y Prosiect Upstream. Gallwch hefyd gael help a chefnogaeth gan elusen iechyd meddwl **Mind**.

Os oes gennych brofiad personol o gael eich cam-drin yn rhywiol, gallwch:

- ddod o hyd i help, cefnogaeth a chyngor yn eich ardal drwy **gyfarwyddiadur gwasanaethau y Survivors Trust**
- ffonio llinell gymorth **Rape Crisis** ar 0808 802 9999, a all hefyd ddweud wrthych ble mae'r gwasanaethau agosaf atoch chi os byddech yn hoffi cefnogaeth neu gwnsela wyneb yn wyneb
- ffonio'r **Gymdeithas Genedlaethol i Bobl a gafodd eu Cam-drin yn ystod eu Plentyndod** ar 0808 801 0331
- dod o hyd i gymorth ar-lein i oroeswyr gwrywaidd cam-drin rhywiol a thrais rhywiol gan **Survivors UK**.

13. Adnoddau a ffynonellau gwybodaeth

Efallai y bydd y sefydliadau a'r adnoddau isod yn ddefnyddiol i chi yn eich gwaith. Maent yn cynnwys rhai sydd wedi'u cynhyrchu y tu allan i'r DU y credwn eu bod yn berthnasol iawn.

Adnoddau i weithwyr proffesiynol

Sefydliad	Manylion
Y Ganolfan CPRh	Ystod o adnoddau ymarfer adnoddau ymarfer yn ymwneud â phynciau fel cefnogi rhieni a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, cyfathrebu â phlant, a nodi a chofnodi arwyddion a dangosyddion posibl bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol. Mae cyhoeddiadau eraill yn cynnwys adroddiadau ymchwil a chrynodebau o negeseuon allweddol o ymchwil ar bynciau yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.
Child Trauma Academy	Llyfrgell helaeth o adnoddau di-dâl yn ymwneud â thrawma plant, yn trafod pynciau fel datblygiad yr ymennydd ac ymyriadau.
Prifysgol Nottingham Trent a Phrifysgol Huddersfield	Adroddiad ar brofiadau partneriaid pobl sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol, gan gynnwys (ar dudalen 14) argymhellion i weithwyr proffesiynol sy'n ceisio eu cefnogi.
Children Heard and Seen	Canllaw ar weithio gyda phlant sydd wedi cael eu heffeithio gan garcharu rhiant, a deall ac ymateb i'r heriau y maent yn eu hwynebu.
Australian Child & Adolescent Trauma, Loss & Grief Network	Awgrymiadau ar gefnogi plant a theuluoedd ar ôl i blentyn gael ei gam-drin.
Y Samariaid	Cyngor a thempled i weithwyr proffesiynol sy'n helpu pobl â meddyliau hunanladdol i ddatblygu cynllun diogelwch.

Sefydliadau ac adnoddau ar gyfer rhieni nad ydynt wedi troseddu

I rieni sydd wedi cael eu heffeithio gan 'y Gnoc'

Sefydliad	Manylion
The Lucy Faithfull Foundation	Mae'r **rhaglen Inform** yn gwrs o sesiynau grŵp i deulu a ffrindiau pobl sydd wedi cael mynediad at ddelweddau rhywiol o blant neu sydd wedi ymgysylltu ag ymddygiadau rhywiol amhriodol eraill yn ymwneud â phlant; mae'n eu galluogi i ddod â'u cwestiynau a'u pryderon, a'u harchwilio mewn amgylchedd cefnogol.
Stop It Now! (The Lucy Faithfull Foundation)	Mae'r **Fforwm Ffrindiau a Theulu** yn fforwm ar-lein lle gall partneriaid nad ydynt wedi troseddu rannu profiadau, meddyliau a gwybodaeth yn ddienw.
Partneriaeth Dyffryn Tafwys	Cefnogaeth i deuluoedd troseddwyr sydd wedi cyflwyno neu a fydd yn cyflwyno yn un o lysoedd Dyffryn Tafwys.
Talking Forward	Cefnogaeth gan gymheiriaid i deuluoedd oedolion sy'n destun ymchwiliad, neu sydd wedi bod yn destun ymchwiliad mewn cysylltiad â throseddau rhywiol ar-lein.
Grŵp Hawliau Teuluoedd	Cyngor i rieni a gofalwyr am eu hawliau a'u hopsiynau pan fydd gweithwyr cymdeithasol neu lysoedd yn gwneud penderfyniadau am les eu plant.

I rieni y mae eu partner yn y carchar

Sefydliad	Manylion
AFFECT (Action For Families Enduring Criminal Trauma)	Cefnogaeth i bobl y mae aelod o'u teulu yn y carchar, neu wedi bod yn y carchar.
Children Heard and Seen	Cefnogaeth i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan garcharu rhiant, gan gynnwys cefnogaeth i'r rhiant nad yw wedi troseddu – pa un a yw yn dal mewn perthynas â'r rhiant sydd wedi troseddu ai peidio – yn ymwneud â siarad â'r plentyn/plant ynglŷn â beth sydd wedi digwydd a delio â'r adeg o amgylch rhyddhau'r rhiant sydd wedi troseddu.

I rieni sy'n awyddus i ddod â'u perthynas gyda'u partner i ben

Sefydliad	Manylion
Cymorth i Fenywod	Cyngor i fenywod ynglŷn â dod â pherthynas i ben yn ddiogel.

I rieni plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol

Sefydliad	Manylion
We Stand (gynt Mosac)	Cefnogaeth ddiogel, ddiragfarn i rieni a gofalwyr nad ydynt wedi cam-drin plant, mewn sefyllfaoedd lle mae eu plant wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.
Y Rhwydwaith Cenedlaethol ar Straen Trawmatig Plant	Yn cynhyrchu taflen ffeithiau sy'n rhoi cyngor i rieni a gofalwyr ynglŷn â sut i ymdopi â sioc cam-drin rhywiol o fewn y teulu.
Acts Fast	Cefnogaeth i rieni a gofalwyr y mae eu plant wedi cael eu cam-drin yn rhywiol neu eu hecsbloetio, a phartneriaid unigolion sydd wedi cael mynediad at ddelweddau rhywiol o blant.

Cyngor ar gadw plant yn ddiogel

Sefydliad	Manylion
NSPCC	Cyngor ar faterion amrywiol yn ymwneud â chadw plant yn ddiogel ar-lein, gan gynnwys wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.
Internet Matters	Help i rieni i gadw eu plant yn ddiogel ar-lein, gan gynnwys cyngor i'w helpu i ddelio â risgiau a gwobrwyon y cyfryngau cymdeithasol.
Parents Protect (The Lucy Faithfull Foundation)	Cyngor i rieni ar amddiffyn eu plant rhag cam-drin rhywiol, gan gynnwys rhaglen ddysgu am gam-drin rhywiol ar-lein ar ffurf ffilmiau byr.
CEOP Education (Asiantaeth Troseddu Cenedlaetho)	Cyngor ar helpu plant i wneud y gorau o'r Rhyngrwyd, gan gynnwys eu cadw nhw'n ddiogel, gweithredu ar sail pryderon a rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

Sefydliadau ac adnoddau i blant

Sefydliad	Manylion
Children Heard and Seen	Cefnogaeth i blant sydd wedi cael eu heffeithio gan garcharu rhiant, gan gynnwys cefnogaeth un-i-un i'w helpu i archwilio a deall eu hemosiynau, a grwpiau gweithgareddau lle gallant gyfarfod plant eraill sydd mewn amgylchiadau tebyg.
Childline	Gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i blant sydd eisiau siarad am unrhyw bryderon sydd ganddynt.
CEOP Safety Centre (Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol)	Adnodd i blant sy'n poeni am gam-drin rhywiol ar-lein neu'r ffordd y mae rhywun wedi bod yn cyfathrebu â nhw ar-lein.

Sefydliadau ac adnoddau i rieni sydd wedi troseddu

Sefydliad	Manylion
Stop It Now! (The Lucy Faithfull Foundation)	**Cefnogaeth i unrhyw un sy'n poeni am ei feddyliau neu ei ymddygiad**.
StopSO	Rhwydwaith annibynnol ledled y DU o weithwyr proffesiynol cymwys a phrofiadol, wedi'u hyfforddi i weithio gyda phobl sydd wedi cyflawni trosedd rywiol neu a allai fod mewn perygl o gyflawni trosedd rywiol.
The Lucy Faithfull Foundation	Mae'r **rhaglen Inform Plus** yn cynnig cefnogaeth i bobl sydd wedi cael eu harestio, sydd wedi cael rhybudd neu sydd wedi eu cael yn euog o gyflawni troseddau Rhyngrwyd yn ymwneud â deunydd cam-drin plant yn rhywiol, i'w helpu i roi'r gorau i'w hymddygiad. (Mae'r rhaglen Engage Plus yn gwneud yr un peth ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu harestio, sydd wedi cael rhybudd neu sydd wedi eu cael yn euog o gyfathrebu rhywiol â phlant.)
Safer Lives	Cefnogaeth arbenigol a chyfrinachol yn ystod ymchwiliad i droseddau rhywiol ar-lein.

Cyfeirnodau

Allely, C. (2020) Contributory role of autism spectrum disorder symptomology to the viewing of indecent images of children (IIOC) and the experience of the criminal justice system. *Journal of Intellectual Disabilities and Offending Behaviour*, 11(3):171–189. **https://doi.org/10.1108/JIDOB-11-2019-0026**

Armitage, R., Wager, N., Wibberley, D., Flynn Hudspith, L. a Gall, V. (2023) "We're not allowed to have experienced trauma. We're not allowed to go through the grieving process" – Exploring the indirect harms associated with child sexual abuse material (CSAM) offending and its impacts on non-offending family members. *Victims & Offenders*, erthygl ymlaen llaw. **https://doi.org/10.1080/15564886.2023.2172504**

Augarge, S. a Rydon-Grange, M. (2022) Female perpetrators of child sexual abuse: A review of the clinical and empirical literature – A 20-year update. *Aggression and Violent Behavior*, 62:101687. **https://doi.org/10.1016/j.avb.2021.101687**

Babchishin, K., Hanson, R. a Hermann, C. (2011) The characteristics of online sex offenders: A meta-analysis. *Sexual Abuse*, 23(1):92–123. **https://doi.org/10.1177/1079063210370708**

Babchishin, K., Hanson, R. a VanZuylen, H. (2015) Online child pornography offenders are different: A meta-analysis of the characteristics of online and offline sex offenders against children. *Archives of Sexual Behavior*, 44(1):45–66. **https://doi.org/10.1007/s10508-014-0270-x**

Bickart, W., McLearen, A., Grady, M. a Stoler, K. (2019) A descriptive study of psychosocial characteristics and offense patterns in females with online child pornography offenses. *Psychiatry, Psychology and Law*, 26(2):295–311. **https://doi.org/10.1080/13218719.2018.1506714**

Cooper, A. (1998) Sexuality and the internet: Surfing into the new millennium. *CyberPsychology & Behavior,*.1(2):187–193. **http://doi.org/10.1089/cpb.1998.1.187**

Duncan, K., Wakeham, A., Winder, B., Blagden, N. ac Armitage, R. (2022) "Grieving someone who's still alive, that's hard": The experiences of non-offending partners of individuals who have sexually offended – an IPA study. *Journal of Sexual Aggression*, 28(3):281–295. **https://doi.org/10.1080/13552600.2021.2024611**

Elliott, I., Mandeville-Norden, R., Rakestrow-Dickens, J. a Beech, A. (2019) Reoffending rates in a UK community sample of individuals with convictions for indecent images of children. *Law and Human Behavior*, 43(4):369–382. **https://doi.org/10.1037/lhb0000328**

Felitti, V., Anda, R., Nordenberg, D., Williamson, D., Spitz, A., Edwards, V., Koss, M. a Marks, J. (1998) Relationship of childhood abuse and household dysfunction to many of the leading causes of death in adults: The Adverse Childhood Experiences (ACE) Study. *American Journal of Preventive Medicine*, 14(4):245–258. **https://doi.org/10.1016/S0749-3797(98)00017-8**

Fortin, F., Paquette, S. a Dupont, B. (2018) From online to offline sexual offending: Episodes and obstacles. *Aggression and Violent Behavior*, 39:33–41. **https://doi.org/10.1016/j.avb.2018.01.003**

Hamilton, M. a Belton, I. (2022) *Offences Involving Indecent Images of Children. Literature Review*. Edinburgh: Scottish Sentencing Council.

Henshaw, M., Ogloff, J. a Clough, J. (2018) Demographic, mental health, and offending characteristics of online child exploitation material offenders: A comparison with contact-only and dual sexual offenders. *Behavioral Sciences & the Law,* 36(2):198–215. **https://doi.org/10.1002/bsl.2337**

Hirschtritt, M., Tucker, D. a Binder, R. (2019) Risk assessment of online child sexual exploitation offenders. *The Journal of the American Academy of Psychiatry and the Law*, 47(2):155–164.

Insoll, T., Ovaska, A., Nurmi, J., Aaltonen, M. a Vaaranen-Valkonen, N. (2022) Risk factors for child sexual abuse material users contacting children online: Results of an anonymous multilingual survey on the dark web. *Journal of Online Trust & Safety*, 1(2). **https://doi.org/10.54501/jots.v1i2.29**

Internet Watch Foundation (2021) *The Annual Report 2021*. Cambridge: IWF.

Jones, C., Salter, M. a Woodlock, D. (2022) "Someone who has been in my shoes": The effectiveness of a peer support model for providing support to partners, family and friends of child sexual abuse material offenders. *Victims & Offenders*, erthygl ymlaen llaw. **https://doi.org/10.1080/15564886.2022.2051108**

Key, R., Underwood, A., Farnham, F., Marzano, L. a Hawton, K. (2021) Suicidal behavior in individuals accused or convicted of child sex abuse or indecent image offenses: Systematic review of prevalence and risk factors. *Suicide and Life-Threatening Behavior,* 51(4):715–728. **https://doi.org/10.1111/sltb.12749**

Kilmer, A. a Leon, C. (2017) 'Nobody worries about our children': Unseen impacts of sex offender registration on families with school-age children and implications for desistance. *Criminal Justice Studies,* 30(2):181–201. **https://doi.org/10.1080/1478601X.2017.1299852**

Levenson, J. a Tewksbury, R. (2009) Collateral damage: Family members of registered sex offenders. *American Journal of Criminal Justice*, 34(1–2):54–68. **https://doi.org/10.1007/s12103-008-9055-x**

Long, M., Alison, L. a McManus, M. (2013) Child pornography and likelihood of contact abuse: A comparison between contact child sexual offenders and noncontact offenders. *Sexual Abuse*, 25(4):370–395. **https://doi.org/10.1177/1079063212464398**

Rimer, J. a Holt, K. (2023) "It was in control of me": Notions of addiction and online child sexual exploitation material offending. *Sexual Abuse*, 35(1):3–30. **https://doi.org/10.1177/10790632211070797**

Salter, M., Wong, W., Breckenridge, J., Scott, S., Cooper, S. a Peleg, N. (2021) *Production and Distribution of Child Sexual Abuse Material by Parental Figures (Trends & Issues in Crime and Criminal Justice, No.616).* Canberra: Australian Institute of Criminology. **https://doi.org/10.52922/ti04916**

Seto, M. ac Eke, A. (2015) Predicting recidivism among adult male child pornography offenders: Development of the Child Pornography Offender Risk Tool (CPORT). *Law and Human Behaviour,* 39(4):416–429. **https://doi.org/10.1037/lhb0000128**

Seto, M., Hanson, R. a Babchishin, K. (2011) Contact sexual offending by men with online sexual offenses. *Sexual Abuse*, 23(1):124–145. **https://doi.org/10.1177/1079063210369013**

Steel, C., Newman, E., O'Rourke, S. a Quayle, E. (2022) Suicidal ideation in offenders convicted of child sexual exploitation material offences. *Behavioral Sciences & the Law*, 40(3):365–378. **https://doi.org/10.1002/bsl.2560**

Vera-Gray, F., McGlynn, C., Kureshi, I. a Butterby, K. (2021) Sexual violence as a sexual script in mainstream online pornography. *The British Journal of Criminology*, 16(5). **https://doi.org/10.1093/bjc/azab035**

WeProtect Global Alliance (2021) *Global Threat Assessment 2021*. Llundain: WeProtect Global Alliance.

Canolfan CPRh,
Tanners Lane,
Barkingside,
Ilford, Essex,
IG6 1QG.

Tynnwyd y ffotograffau yn y cyhoeddiad hwn gan ddefnyddio actorion ac nid ydynt yn darlunio sefyllfaoedd gwirioneddol.